# Prosiect Trosglwyddo Gwybodaeth Mewnwelediad ar Fynediad

## Adroddiad Terfynol

Y Brifysgol Agored yng Nghymru, Ionawr 2024

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Sefydliadau partner:

1872 Prifysgol Aberystwyth University

Grŵp Llandrillo Menai

Prifysgol Bangor University

Coleg Gwent

Coleg Penybont Bridgend College

The Open University Y Brifysgol Agored Wales Cymru

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Cardiff and Vale College Coleg Caerdydd a'r Fro

Cardiff University Prifysgol Caerdydd

Coleg Cambria

Coleg y Cymoedd

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant University of Wales Trinity Saint David

Prifysgol Abertawe Swansea University

University of South Wales Prifysgol De Cymru

Prifysgol Wrecsam Wrexham University

**1. Prosiect Trosglwyddo Gwybodaeth Mewnwelediad ar Fynediad .......... 4**
Allbwn a Chanlyniadau ..... 5
**2. Cyflwyniad ..... 6**
**3. Rhagair ..... 7**
**4. Crynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion ..... 8**
Darpariaeth ar draws y sector ..... 8
"Tueddiadau" dysgwyr ..... 8
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ..... 10
'Llwyddiant' ..... 10
Cydweithio a chystadlu ar draws y sector ..... 11
**5. Darpariaeth Mynediad a Sylfaen ..... 13**
Dysgwyr a dysgu ..... 13
Staff ..... 14
Cydweithio ar draws y sector trydyddol ..... 15
Rhwystrau a ffactorau ysgogi ..... 16
**6. Mapio'r sector ..... 18**
**7. Cwestiynau ymchwil ..... 20**
**8. Canfyddiadau ymchwil ..... 21**
Dysgwyr mewn ardaloedd difreintiedig penodol ..... 22
COVID-19 ac effaith y pandemig ..... 24
Recriwtio ..... 25
Cyllid ac ariannu ..... 28
Cydbwysedd gwaith/bywyd/astudio ..... 31
Darpariaeth wyneb yn wyneb/cyfunol/ar-lein ..... 34
Iechyd meddwl ac anableddau eraill ..... 38
Rhywedd, teulu a rhianta ..... 39
Oedran ..... 41
Darpariaeth cyfrwng Cymraeg ..... 43
Lle a gofod ..... 43
'Llwyddiant' ..... 45
**9. Cydweithredu a chystadleuaeth ..... 48**
Darparwyr eraill ..... 50
Darpar bartneriaid a rhanddeiliaid eraill ..... 51


The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

**10. Methodoleg ... 52**
Partneriaid prosiect – dull cydweithredol ... 52
Llais y Dysgwr ... 57
**11. Casgliad ... 58**
**12. Cyfeiriadau ... 59**
**13. Partneriaeth y prosiect ... 62**
Y tîm ymchwil: ... 62
Cydnabyddiaethau ... 63

(Rhif cyfeirnod cymeradwyaeth foesegol: HREC/4796/Pilgrim/Thomas.)

I lawrlwytho fersiwn ddigidol o'r adroddiad hwn, ewch i open.ac.uk/TGMF

This report is also available in English.

# 1. Prosiect Trosglwyddo Gwybodaeth Mewnweledigd ar Fynediad

Ariannwyd y prosiect hwn gan Gronfa Buddsoddi Strategol CCAUC. Nod y prosiect oedd mapio'r ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen yng Nghymru ac archwilio profiadau oedolion a ddychwelodd i fyd addysg a dysgwyr trosglwyddo ôl-16 sy'n paratoi ar gyfer dysgu uwch. I ddechrau, roeddem yn benodol am nodi anawsterau i fyfyrwyr gael gafael ar ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen, ac yn ail ar wybodaeth, cyngor ac arweiniad a ddarperir, a gweithredu ar ran darparwyr, er mwyn sicrhau ei bod yn haws i ddysgwyr ymgysylltu â'r ddarpariaeth briodol.

Arweiniwyd y prosiect gan Y Brifysgol Agored yng Nghymru. Roedd ganddo 14 o bartneriaid llawn ymysg sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch yng Nghymru sy'n darparu cyrsiau Mynediad a Sylfaen. Gyda'r nod o adeiladu ar Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 a'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio, ceisiodd gefnogi prosesau cydweithio drwy ddylunio ymchwil ynghyd ag argymhellion.

**Sefydliadau partner:**

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Coleg Penybont
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Prifysgol Caerdydd
- Coleg Cambria
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Gwent
- Grŵp Llandrillo Menai
- Y Brifysgol Agored yng Nghymru
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol Glyndŵr Wrecsam (Prifysgol Wrecsam erbyn hyn)

Prosiect ar raddfa fach oedd hwn, gyda chylch gwaith ffiniedig. Ehangwyd y cylch gwaith cychwynnol mewn dwy ffordd ar gynnig aelodau'r Grŵp Llywio i gwmpasu:

- darpariaeth Sylfaen Blwyddyn 0 ynghyd â Mynediad, a
- darpariaeth amser llawn ynghyd â rhan-amser.

## Allbwn a Chanlyniadau

Gwnaethom gynnig yr allbwn canlynol:

- Llunio map sector AB-AU o gyrsiau Mynediad/Sylfaen,
- Cyd-lunio (gyda mewnbwn gan bob partner) adroddiad academaidd gydag argymhellion a chamau gweithredu arfaethedig ar gyfer AB ac AU,
- Llunio erthygl academaidd o'r adroddiad,
- Cynnal confensiwn gwybodaeth ar draws y sector i gyhoeddi canfyddiadau'r prosiect a hyrwyddo rhagor o waith cydweithredu rhwng partneriaid AB ac AU o ran y ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen.

Gwnaethom gefnogi digwyddiad ar-lein cyn y confensiwn i ddwyn rhanddeiliaid ynghyd i gyfrannu at ddrafft gwaith diweddaraf yr adroddiad cyn ei gwblhau.

Gwnaethom gynnig y canlyniadau canlynol:

- Bod llais y dysgwr yn cael ei gynnwys yn weithredol ar draws y partneriaid ac o fewn y broses o lywodraethu'r prosiect a'i fod wedi'i adlewyrchu yn yr adroddiad terfynol ac wedi dylanwadu arno.
- Bod dull partneriaeth gydweithredol yn cael ei feithrin drwy sgyrsiau ar draws y sector i drosglwyddo gwybodaeth am gwmpas, argaeledd ac addasrwydd cyrsiau mynediad sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer dysgu rhan-amser ac amser llawn (wyneb yn wyneb a digidol) fel y gall argymhellion y cytunwyd arnynt ar gyfer blaenoriaethau a chamau gweithredu cydweithredol yn y dyfodol gefnogi prosesau cydweithio yn y dyfodol.

# 2. Cyflwyniad

Wrth i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CADY) gychwyn ei waith wanwyn 2024, bydd 'cydweithio' yn sicr o fod yn un o'i arwyddeiriau. Yn wir, mae gwneud ein system addysg drydyddol yn fwy cydlynol yn mynnu ymrwymiad i gydweithio gan bob un ohonom yn y sector.

Mae prosiect Trosglwyddo Gwybodaeth Mewnwelediad ar Fynediad wedi bod yn enghraifft berffaith o sut gall prifysgolion a cholegau gydweithio er budd dysgwyr, wrth adnabod y rhwystrau i ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen ac wrth archwilio sut gellir goresgyn y rhwystrau hynny.

Mae gwella mynediad i ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen hefyd yn allweddol i gyflawni'r ddyletswydd sydd ar CADY i annog cyfranogiad mewn addysg drydyddol a hybu cyfleoedd cyfartal.

Mae'r prosiect hwn wedi canfod bod yna ddarpariaeth eang ar draws Cymru, a hefyd cefnogaeth dda gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, canfyddir nifer o heriau hefyd. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio'r heriau hyn yn fanwl o safbwynt y dysgwr a'r darparwr.

Mae'r gwaith hwn yn dangos fod darpariaeth Mynediad a Sylfaen yn parhau i fod yn llwybr allan o dlodi. Yn y cyfnod hwn o galedi i'r pwrs cyhoeddus ac i deuluoedd ledled Cymru, mae'r ddarpariaeth hon yn hollbwysig i ffyniant unigolion, teuluoedd, cymunedau, a Chymru gyfan yn y dyfodol.

Ar ran y Brifysgol Agored yng Nghymru, rwy'n cynnig diolch am y cyllido a dderbyniodd y prosiect gan Gronfa Fuddsoddi Strategol Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, ac i'r wyth prifysgol arall a'r chwe choleg a gyfranogodd i'r prosiect hwn gyda ni.

**Ben Lewis, Cyfarwyddwr Y Brifysgol Agored yng Nghymru.**

## 3. Rhagair

Mae hanes hir ac anrhydeddus o ddarpariaeth gyda'r nod o baratoi dysgwyr hŷn i gael mynediad at addysg uwch. Cyflwynwyd y cyrsiau Mynediad cyntaf, a oedd yn cynnig llwybrau a gefnogir o addysg bellach i addysg uwch, yn y 1970au. Cyflwynwyd rhaglenni Sylfaen, a oedd wedi'u hintegreiddio â graddau israddedig, yn 2001. Yng Nghymru, mae amrywiaeth eang sy'n ffynnu o raglenni Mynediad a Sylfaen, sy'n trawsnewid bywydau, yn magu hyder unigolion ac yn cynnig llwybrau allan o dlodi. Fodd bynnag, mae profiadau myfyrwyr Mynediad/Sylfaen a gwybodaeth gan gydweithwyr sy'n addysgu ac yn hyrwyddo rhaglenni o'r fath yn faes lle na wnaed digon o waith ymchwil ac, o ganlyniad, gall y ddarpariaeth ar gyfer y grŵp 'ehangu cyfranogiad' hollbwysig hwn gael ei ddarostwng i ymyl y sector yn rhy hawdd.

Felly, mae'n bleser gennyf argymell yr adroddiad hwn fel un a fydd yn ychwanegu'n sylweddol at y sail dystiolaeth genedlaethol. Mae'r ymchwil hon wedi nodi'r anawsterau a wynebir gan ddysgwyr sy'n oedolion a myfyrwyr o gefndiroedd a dangynrychiolir wrth geisio addysg uwch. Yr un mor bwysig, mae'r ymchwil wedi tynnu sylw at bwysigrwydd darpariaeth hyblyg, cymorth ariannol hygyrch a Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad diduedd – gallai sefydliadau a llunwyr polisïau gyflwyno gwelliannau cymharol fach i leihau'r rhwystrau hyn.

Ymhlith y canfyddiadau allweddol mae:

- Bylchau daearyddol mewn darpariaeth Mynediad/Sylfaen – mae darparwyr yn cael trafferth cyrraedd pob darpar ddysgwr oherwydd heriau o ran trafnidiaeth a llai o fand eang mewn 'anialwch digidol'.
- Natur heterogenaidd darpar fyfyrwyr – mae rhwystrau amgylchiadau bywyd amrywiol yn effeithio ar iechyd meddwl a diogelwch ariannol, sy'n effeithio ar yr amser sydd ar gael i astudio.
- Yr angen am gyllid i gefnogi mwy o gyfleoedd rhan-amser a hybrid hyblyg.

Rwy'n gobeithio y bydd y prosiect cyfnewid gwybodaeth hwn yn ysgogi gwaith cydweithredol yn y dyfodol, gan ddefnyddio lleisiau dilys i roi dealltwriaeth o'r newydd ar y profiad dysgu Mynediad/Sylfaen.

**John Butcher, Athro Emeritws, Y Brifysgol Agored**

# 4. Crynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion

## Darpariaeth ar draws y sector

Disgrifiodd cyfranogwyr o Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch amrywiaeth dda o gyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n eu cefnogi nhw fel darparwyr a'u dysgwyr.

Mae amrywiaeth eang o gyrsiau a llawer o ffynonellau gwahanol o gymorth ariannol i ddysgwyr. Nododd yr holl gyfranogwyr: asiantaethau, staff a dysgwyr AB ac AU anhawster wrth ddod o hyd i'r llwybr mwyaf priodol ar gyfer dysgwyr unigol, a'r cymorth ariannol mwyaf priodol. Mae staff AB ac AU yn cael trafferth recriwtio ac nid ydynt yn hyderus eu bod yn cyrraedd pob darpar ddysgwr.

**Argymhelliad 1: datblygu adnodd (map rhyngweithiol) i gefnogi dysgwyr i nodi darpariaeth dysgu briodol a chymorth ariannol.**

- Archwilio potensial adnodd rhyngweithiol (map): gwefan neu ap, sy'n dangos darpariaeth Mynediad a Sylfaen a chymorth ariannol priodol. (Gellid gwneud hyn drwy waith cydweithredu parhaus rhwng partneriaid y prosiect fel y trafodir isod – Argymhelliad 5.)
- Archwilio'r ffordd orau o gefnogi dysgwyr i ddefnyddio'r adnodd hwn gyda gwybodaeth, cyngor ac arweiniad wedi'u personoli gan gynghorwyr arbenigol.
- Cyfrannu at unrhyw drafodaeth ynghylch codi ymwybyddiaeth o amrywiaeth y ddarpariaeth addysg drydyddol yng Nghymru ar gyfer dysgwyr ar bob cam o'u bywydau.

## “Tueddiadau” dysgwyr

Mae dysgwyr a darparwyr yn wynebu rhwystrau sy'n broblemau hysbys ledled Cymru: problemau gyda thrafnidiaeth gyhoeddus a rhwydweithiau ffyrdd, pocedi o ddarpariaeth band eang isel. Mae pandemig COVID-19 yn dal i effeithio ar ddysgwyr a darparwyr, ond mae ymarfer arloesol a ddatblygwyd yn ystod y cyfyngiadau symud hefyd yn parhau i gefnogi dysgu hygyrch.

Mae gan ddysgwyr mewn darpariaeth Mynediad a Sylfaen “dueddiadau” amrywiol iawn: rhinweddau unigol, amgylchiadau bywyd a lleoliad daearyddol. Mae problemau iechyd meddwl a'r argyfwng costau byw yn effeithio'n benodol

ar lawer o ddysgwyr Mynediad a Sylfaen, lle mae'n rhaid iddynt ymrwymo i lefelau cynyddol o waith â thâl (yn aml er mwyn cefnogi eu teuluoedd), sy'n peryglu eu gallu i gwblhau eu hastudiaethau'n llwyddiannus a'u dyheadau gyrfa eu hunain. Cyn astudio cwrs Mynediad, weithiau bydd dysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau bach, ardystiedig, gan fagu eu hyder a'u hawydd i barhau i ddysgu. Mae nifer mawr o ddysgwyr Mynediad yn famau sydd ar gyrsiau gofal iechyd. Mae cyrsiau Sylfaen yn cefnogi dysgwyr hŷn sy'n ailhyfforddi er mwyn newid gyrfa. Yn aml, roedd gan ddysgwyr sgiliau cymdeithasol ar-lein gwych e.e. defnyddio ffôn symudol, ond nid oedd ganddynt sgiliau academaidd digidol o hyd.

Mae staff AB ac AU yn datblygu darpariaeth dda sy'n sensitif i anghenion dysgwyr:

- Darpariaeth ar-lein a chyfunol, gyda darpariaeth wyneb yn wyneb parhaus,
- Meithrin sgiliau digidol fel rhan o ddarpariaeth dysgu,
- Amserlennu i gyd-fynd ag amseroedd mynd â phlant i'r ysgol a'u casglu,
- Amserlennu i gyd-fynd â gwaith shifft ar ddydd Gwener/ar benwythnosau,
- Darparu cyfleusterau cegin i ddysgwyr Mynediad,
- Cynnig brecwast am ddim.

Roedd diffyg cymorth cyllid yn golygu ei bod yn anodd cynnig darpariaeth gyda'r nos a rhan-amser, yr oedd y staff yn credu a allai helpu'r dysgwyr sy'n gweithio oriau hirach.

**Argymhelliad 2: gwerthuso cymorth ariannol i ddysgwyr, a chyllido ar gyfer darpariaeth dysgu gyda'r nos a rhan-amser**

- Gan gynnal yr amrywiaeth dda o gyllid sy'n cefnogi dysgwyr mewn amgylchiadau amrywiol iawn, gall fod adegau lle nad yw hyn yn ddigon i alluogi dysgwyr, yn enwedig y rheini sydd â theuluoedd, i gydbwyso gwaith â thâl ac astudiaethau. (NB Mae llawer o ddysgwyr Mynediad ar lwybrau iechyd a gofal cymdeithasol, mewn cyd-destun lle mae diffyg staff difrifol ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.)
- Gallai darparwyr Mynediad ystyried cyflwyno achos dros gyllid a chymorth ariannol gwell i ddysgwyr ar gyfer darpariaeth gyda'r nos a rhan-amser.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Dangosodd yr ymarfer mapio y gall y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg fod yn annigonol. O fewn cwmpas y prosiect hwn, roedd yn anodd ymchwilio i'r hyn y gwyddom ei fod yn faes pryder penodol.

**Argymhelliad 3: gwerthuso darpariaeth Mynediad a Sylfaen cyfrwng Cymraeg ymhellach**

- Dylid gwneud gwaith penodol i archwilio i brofiad dysgwyr o'r ddarpariaeth dysgu Mynediad a Sylfaen cyfrwng Cymraeg.

## 'Llwyddiant'

Roedd gan bartneriaeth y prosiect ddiddordeb mewn 'llwyddiant', ond nid mewn ymdeimlad arwynebol o'r niferoedd sy'n mynd ymlaen i ddysgu uwch. Gofynnwyd beth oedd ystyr 'llwyddiant' i'r dysgwyr: gallai hyn olygu sylweddoli y byddai rhywbeth heblaw dysgu uwch yn fwy addas iddynt. Ni wnaethant lwyddo i archwilio hyn yn llawn yn y prosiect bach hwn, fodd bynnag, roedd y dysgwyr y gwnaethom siarad â nhw o'r farn y gallai eu dysgu Mynediad a Sylfaen eu helpu i ymgysylltu ag astudiaethau Addysg Uwch yn well na'r rheini a oedd wedi dod yn syth o Safon Uwch. (Myfyrwyr hŷn oedd y rhain ac mae'n bosibl, pe byddent wedi cael cymorth i mewn i ddysgu uwch drwy gyrsiau Mynediad neu Sylfaen, y byddai sgiliau bywyd eraill yn ddefnyddiol iddynt hefyd.)

**Argymhelliad 4: archwilio 'llwyddiant' i ddysgwyr Mynediad a Sylfaen ymhellach**

- Gallai darn arall o waith archwilio:
    - Pa mor barod yw dysgwyr ar gyrsiau Mynediad a Sylfaen wrth iddynt symud i ddysgu uwch,
    - Pa mor ddefnyddiol oedd y dysgu Mynediad a Sylfaen i'w cefnogi os byddant yn dewis rhywbeth heblaw am ddysgu uwch,
    - Pa mor ddefnyddiol yw dysgu Mynediad a Sylfaen wrth roi opsiynau i ddysgwyr mewn amgylchedd cyflogaeth sy'n newid yn gyflym.

## Cydweithio a chystadlu ar draws y sector

Roedd uwch-arweinwyr mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn ymwneud yn llawn o gamau cynharaf y prosiect hwn, gan ei gefnogi gyda'u hamser a'u hymdrech eu hunain a'u staff. Yn y digwyddiad cyn y confensiwn (a oedd yn bwydo i mewn i'r adroddiad drafft gwaith), bu'r partneriaid a'r rhanddeiliaid yn myfyrio ar werth y prosiect fel cyfle i ddod ynghyd a mynegi dymuniad i hyn barhau, ac i waith parhaus gynnwys y chwe chydweithiwr AB nad oeddent yn rhan o'r cynnig gwreiddiol. Disgrifiodd yr aelodau bwyllgorau eraill y maent yn rhan ohonynt, a allai gefnogi rhwydwaith parhaus o'r math hwn, gan awgrymu y gellid meithrin cysylltiadau â gwaith arall, yn enwedig o ran mynd i'r afael â thlodi digidol. Gellir mesur rhwydweithiau cydweithredol / cystadleuol drwy ddefnyddio dadansoddeg rhwydweithio cymdeithasol (gweler o dan Methodoleg) os bydd trosolwg o'r cysylltiadau presennol rhwng rhanddeiliaid yn ddefnyddiol.

Gwelsom sawl achos o bartneriaeth gydweithredol dda rhwng sefydliadau a hefyd gydag asiantaethau eraill. Mae rhywfaint o gystadleuaeth yn dal i olygu nad oes darpariaeth ledled Cymru ar gael i ddysgwyr eto. Roedd sawl sefydliad yn gwneud gwaith allgymorth i sicrhau y gallai dysgwyr ddysgu yn eu hardal eu hunain pe byddai angen iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r rhain yn ymddangos yn gyfleoedd ynysig, heb gynllunio ar y cyd. Mae sefydliadau o'r farn bod cyflogwyr yn datblygu eu darpariaeth hyfforddiant eu hunain yn gynyddol, weithiau gan ddefnyddio cyllid hyfforddiant y llywodraeth (Cyfrif Dysgu Personol - PLA). Nid oes gan staff addysgu gysylltiadau cystal â chyflogwyr lleol ag sydd ganddynt â darparwyr AU y maent yn eu bwydo. Roedd rhai cysylltiadau ag ysgolion, ond yn bennaf drwy adrannau ymchwil prifysgolion.

Mae rhai aelodau o staff sy'n ymchwilio i ddarpariaeth ac ymarfer. Nid yw hyn wedi'i ddosbarthu'n dda.

**Argymhelliad 5: cefnogi gwaith cydweithredol parhaus ymysg darparwyr addysg ar gyfer dysgwyr trosglwyddo ôl-16 a dysgwyr sy'n oedolion**

- Wrth i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gael ei sefydlu, gallai gefnogi gwaith rhwydweithio parhaus rhwng sefydliadau. (Mae Agored Cymru yn cynnal digwyddiadau lle mae darparwyr Mynediad yn dod ynghyd).
- Dylai darn o waith ar wahân archwilio pa ddarpariaeth allgymorth ynghyd â darpariaeth dysgu ar-lein sy'n cefnogi ardaloedd ynysig (e.e. ardaloedd gwledig o ganolbarth Cymru).
- Gallai darn o waith ar wahân archwilio hyfforddiant a ddarperir gan gyflogwyr gan ddefnyddio Cyfrifon Dysgu Personol, a ph'un a yw'r cwricwlwm ar gyfer hwn yn gulach na'r cwricwlwm Mynediad a Sylfaen, gan gefnogi angen uniongyrchol cyflogwyr ar draul rhoi sgiliau a galluoedd ehangach i'r dysgwr.
- Gellid datblygu rhaglen o ddigwyddiadau i gefnogi gwaith ymchwil i'r ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen a gynhelir ar hyn o bryd heb brosesau casglu na dosbarthu.

Gwnaed argymhellion 4 a 5 gan ystyried tirwedd cyflogaeth sy'n newid yn gyflym. Gall hyfforddiant tuag at anghenion penodol cyflogwyr olygu os bydd un set o weithwyr yn mynd yn ddi-waith, na fydd ganddynt y sgiliau i drosglwyddo i gyfleoedd eraill yn rhwydd. Mae darpariaeth Mynediad a Sylfaen yn cefnogi prosesau meithrin sgiliau a gallu eang i weithlu symudol – gan gynnig hyblygrwydd i sicrhau mwy o gyfranogiad (Butcher, 2020). Mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (2022) a Holtom, Bowen a Pells (2021) hefyd yn nodi pwysigrwydd ehangach Dysgu Oedolion yn y Gymuned gan gynnig profiad cyfoethog sy'n magu hyder ymysg dysgwyr hŷn.

"Mae'n ymwneud ag adeiladu gweithlu cydnerth."

# 5. Darpariaeth Mynediad a Sylfaen

"Mae Mynediad yn newid bywydau."

## Dysgwyr a dysgu

Daw'r prosiect ar adeg lle mae llawer o gymunedau difreintiedig ledled Cymru dan bwysau. Amlygwyd problemau economaidd-gymdeithasol a thlodi digidol yn ystod cyfyngiadau symud y pandemig. Dilynwyd hyn gan ansicrwydd economaidd byd-eang a ledled y DU ynghyd ag argyfwng costau byw. Gwnaeth rhai myfyrwyr o gefndiroedd cyfforddus hefyd ddefnydd da o'r ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen, ond i lawer, llwybrau allan o dlodi ariannol oedd y rhain: mae'r dyhead i adeiladu gyrfa werth chweil allan o swydd â chyflog isel yn ysgogiad cryf. Fodd bynnag, mae pwysau ariannol ac o ran llwyth gwaith – yn enwedig yn y sector gofal iechyd sy'n cyflogi llawer o ddysgwyr Mynediad, yn dod yn rhwystrau na ellir eu goresgyn i rai dysgwyr sy'n agored i niwed.

Mae cyrsiau Mynediad bob amser wedi denu dysgwyr difreintiedig ond llawn dyhead. Mae darparwyr o'r farn bod y garfan hon yn dod yn gynyddol gymhleth, ac iau. Yn draddodiadol, mae cyrsiau Sylfaen yn denu dysgwyr iau, a rhai dysgwyr hŷn.

Mae llawer o ddysgwyr yn gorfod newid gyrfa yn ystod eu bywydau. Nid yw pobl yn gweithio yn yr un swydd, i'r un cyflogwr, drwy gydol eu gyrfa mwyach. Mae ganddynt yrfaoedd newidiol. Wrth i brosesau awtomeiddio a Deallusrwydd Artiffisial newid y dirwedd cyflogaeth ymhellach, bydd angen i bobl yng Nghymru o bob cefndir gael darpariaeth hyfforddiant ac addysg amrywiol drwy gydol eu bywydau.

Daw dysgwyr Mynediad a Sylfaen o amrywiaeth eang o gefndiroedd. Mae llawer o ardaloedd gwledig, arfordirol a threfol difreintiedig, pobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg ysgolion, rhieni (yn enwedig mamau sengl) sy'n ceisio gwella eu hamgylchiadau eu hunain ac amgylchiadau eu teulu, pobl sydd yng nghanol eu gyrfaoedd a ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd â chymwysterau presennol ond y mae angen iddynt ailhyfforddi.

Yn ystod ein gwaith ymchwil, cawsom drafferth wrth geisio recriwtio dysgwyr unigol fel cyfranogwyr. Cawsom fwy o lwyddiant wrth recriwtio Cynrychiolwyr

Myfyrwyr i siarad am eu profiadau eu hunain a'u cyd-fyfyrwyr. Mae Cynrychiolwyr yn falch o'r gwaith a wnânt, gan ddweud wrthym am ddatrysiadau lleol maent yn eu negodi ar gyfer cyd-fyfyrwyr. Mae hyn yn enghraifft o 'lais y dysgwr' fel rhan o broses ddemocrataidd: mae'r Cynrychiolwyr yn awyddus i helpu darparwyr i ddeall anghenion dysgwyr a darparu adnoddau priodol. Weithiau, bydd staff yn cynrychioli anghenion dysgwyr fel eiriolwyr ar eu cyfer, ac weithiau byddant yn cael eu clywed ond nid bob amser.

(Cynrychiolydd Myfyrwyr) "Mae myfyrwyr sydd â rhwystrau ieithyddol sydd wedi cymryd amser i helpu ac mae'n rhoi ymdeimlad da o gymuned ac o gynnwys pawb, ni waeth beth fo'u hanableddau... does neb yn cael eu gadael ar ôl."

## Staff

Gwnaethom gyfweld â nifer o aelodau o staff sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu dysgu Mynediad a Sylfaen. Roeddent yn teimlo'n frwd dros y dysgwyr maent yn gweithio'n galed i'w cefnogi, gan siarad yn llawn balchder am ymrwymiad dysgwyr difreintiedig ond llawn dyhead. Yn aml, maent yn cyflawni amrywiaeth o rolau: recriwtio, cwnselydd, eiriolwr, cynghorydd ariannol .... darlithydd, roedd y staff yn barod i fynd allan i ymweld â dysgwyr mewn ardaloedd ynysig, i addysgu yn ystod oriau anghymdeithasol ac ildio lle yn eu swyddfeydd er mwyn darparu ar gyfer y dysgwyr.

"Rwy'n galw fy hun yn Lassie. Ar ryw adeg, byddwch yn digalonni wrth astudio. Ar yr adeg honno, bydd Lassie yn dod i'ch helpu."

Mae gwerthoedd staff AB ac AU wrth ddarparu yn cyd-fynd yn agos â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae darparwyr Mynediad a Sylfaen yn wynebu dwy adeg lle mae'n rhaid goresgyn rhwystrau ar gyfer eu dysgwyr: recriwtio a chadw.

Nododd rhai o'r staff eu bod yn teimlo nad ydynt yn cael cefnogaeth wrth **recriwtio.** Mae'r gwaith o estyn allan i gymunedau sy'n aml yn gudd ac sydd â chysylltiadau gwael yn anodd a chymhleth.

Mae llawer o bwysau gan gynnwys yr angen i weithio, pwysau gofynion lleoliadau a digwyddiadau bywyd teuluol yn arwain at broblemau cadw i

ddysgwyr a'u darparwyr dysgu. Mewn cymunedau sy'n wynebu lefelau uchel o dlodi economaidd, mae'r staff yn teimlo dan bwysau i **gadw** dysgwyr, a'r arian a ddaw gyda dysgwyr, ond maent hefyd yn ymwybodol bod angen iddynt amddiffyn dysgwyr rhag mynd i ddyled yn ddiangen.

Yn ystod y prosiect, gwelsom fod staff wedi gwneud gwaith ymchwil yn y maes nad oedd wedi'i gyhoeddi, wedi ysgrifennu traethodau hir ar gyfer doethuriaeth neu radd Meistr. Gall y pwyslais ar ragoriaeth ryngwladol mewn gwaith ymchwil academaidd olygu bod gwaith polisi cymdeithasol lleol yn cael ei golli mewn rhwydweithiau academaidd traddodiadol. Rydym yn argymell ceisio datblygu cyfleoedd i staff ddod ynghyd, meithrin partneriaethau cydweithredol, rhannu arferion da a chael cymorth. Efallai y gall cyfnodolion fel *The Wales Journal of Education* neu *Widening Participation and Lifelong Learning* gynnig rhifynnau arbennig i goladu gwaith. Mae Agored Cymru eisoes yn cynnig cyfleoedd i staff Mynediad ddod ynghyd. Efallai y gall y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) sydd ar droed gefnogi digwyddiadau parhaus i rannu canfyddiadau ymchwil ac arferion da.

Mae'r staff yn canolbwyntio ar wella cyfleoedd i ddysgwyr yn y dyfodol drwy addysg, ond eu canfyddiad yw bod rheolwyr yn canolbwyntio ar sefydliadau fel busnesau. Mewn hinsawdd economaidd anodd, gyda gweledigaeth gorfforaethol mewn Addysg Uwch ac Addysg Bellach ledled y DU, rhaid i oroesi'n ariannol fod yn flaenoriaeth uchel i reolwyr. Fodd bynnag, mae gan ddull cydweithredol yn hytrach na chystadleuol rhwng sefydliadau yng Nghymru, a gefnogir drwy sicrhau bod rhwydweithiau staff rheoli ac addysgu yn cyfnewid gwybodaeth, y potensial i ddatblygu darpariaeth well ar gyfer gweithlu medrus symudol mewn tirwedd cyflogaeth sy'n newid yn gyflym. Yn hytrach nag addysg sydd â'r nod o ddatblygu gweithlu yn unol â'r hyn sydd ei angen ar gyflogwyr (presennol), gallai hyn fod yn gyfres amrywiol o lwybrau gyda dysgwyr yn gallu meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gael y gyflogaeth y maent yn ei rhagweld yn y dyfodol. Mae Butcher a Clarke (2021) yn nodi sut y gall Mynediad wella hyder dysgwyr a chyfalaf diwylliannol, yn hytrach na dim ond cynnig ‘gwerth economaidd’.

## Cydweithio ar draws y sector trydyddol

Mae sawl sefydliad a darparwr addysg yn y sector trydyddol yng Nghymru wedi'u creu allan o'r broses o gyfuno sefydliadau, felly mae ymdrech eisoes yn

bodoli tuag at gydweithredu. Mae gan staff ymdeimlad cryf ac ymrwymedig o genhadaeth gymdeithasol. Mae gwella cyfranogiad yn rhan o genhadaeth ddinesig sefydliadau. Fodd bynnag, roedd staff mewn rhai prifysgolion o'r farn bod ymchwil ac addysgu ar lefel gradd yn cael blaenoriaeth cyn gwaith Sylfaen ac allgymorth. Mewn Colegau AB, ystyriwyd bod Mynediad weithiau'n cael ei danbrisio o gymharu â llwybrau cymwysterau eraill. Mewn hinsawdd ariannol dynn, rhaid cefnogi gwaith prifysgol sy'n dod â mwy o incwm. Mae presenoldeb rheolaidd uwch-reolwyr ar Grŵp Llywio'r prosiect hwn yn awgrymu eu bod yn rhoi pwys mawr ar ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen, sy'n bwydo'n sylweddol i gyrsiau gradd AU craidd.

Er hyn, mae'n ymddangos bod amrywioldeb rhwng sefydliadau o ran p'un a yw'r staff yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt. Mewn rhai sefydliadau llai, roedd yn ymddangos bod y staff yn gallu eirioli 'llais y dysgwr' yn well i'r rheolwyr ac i gael adnoddau. Mewn rhai achosion, gall fod bwlch cyfathrebu rhwng staff sy'n cyflawni 'ar lawr gwlad' a rheolwyr. Gall helpu i gynnig cyfle i staff addysgu ynghyd â rheolwyr ddod ynghyd i rannu gwybodaeth.

## Rhwystrau a ffactorau ysgogi

Mae gwaith ymchwil wedi nodi tair haen o 'rwystrau' i ehangu cyfranogiad mewn addysg: sefyllfaol, sefydliadol a thueddiadol (gweler e.e. Gorard et al 2006). Yma, rydym wedi gwrthdroi eu trefn arferol i roi'r tueddiadol a safbwynt dysgwyr yn gyntaf ac wedi dewis 'strwythurol' yn lle sefyllfaol. Wrth weithio gyda myfyrwyr Sylfaen Blwyddyn 0 a Blwyddyn 1 yng Nghymru, mae Elmi-Glennan (2013) wedi awgrymu y gall rhwystrau hefyd fod yn ysgogwyr: mae'r angen am ofal plant yn rhwystr i astudio, fodd bynnag mae dysgwyr yn cael eu hysgogi gan eu plant. Mewn adroddiad ar gyfer Addysg Oedolion Cymru/Adult Learning Wales, ychwanegodd Holtom, Bowen a Pells (2011) na fydd rhwystrau yn unig yn esbonio pam y mae rhai pobl yn dod yn ddysgwyr ac eraill ddim: mae cymhelliant yn ffactor allweddol.

Gall rhwystrau/cymhellion fod yn rhai:

- Tueddiadol: cymeriad, profiad neu amgylchiadau unigol.
- Sefydliadol: lle gallai'r darparwr dysgu gymryd camau i gydnabod a rhoi cymorth i helpu dysgwyr i oresgyn rhwystrau neu lle mae wedi gwneud hynny.
- Strwythurol: materion sy'n dod o dan brosesau llywodraethu uwch.

# 6. Mapio'r sector

Mae amrywiaeth eang o gymwysterau i gefnogi dysgwyr i mewn i Addysg Uwch, ynghyd â chymorth ariannol i ddysgwyr. Mae'r amrywiaeth hon yn werthfawr i ddysgwyr sydd â llawer o anghenion amrywiol.

Lefelau ymwybyddiaeth isel a geir o rai llwybrau i mewn i AU: nid ystyrir bod BTEC yn llwybr mynediad, ac o rai gofynion – fel TGAU Mathemateg a Saesneg neu gymwysterau cyfatebol (nid yw cymhwyster Mynediad yn ddigon ar ei ben ei hun bob amser).

Mae darparwyr yn ymateb i anghenion dysgwyr â darpariaeth amrywiol: dysgu ar-lein a chyfunol, ynghyd â darpariaeth wyneb yn wyneb. Mae gan ddysgwyr gwahanol mewn lleoliadau gwahanol farn wahanol ar gyfer y rhain.

Roedd gan ddarparwyr ac asiantaethau ddiddordeb mewn dull hygyrch a rhyngweithiol i gynnig gwybodaeth ddiweddar well er mwyn cefnogi'r broses o ymgysylltu â dysgwyr. Gellid cynnig hwn yn uniongyrchol i'r dysgwyr i'w helpu i nodi cyrsiau addas. Fodd bynnag, gall fod angen cefnogi dysgwyr drwy gynnal sgwrs â chynghorydd personol. Gwelsom fod dysgwyr weithiau'n cofrestru ar gyfer astudiaethau nad ydynt yn addas i gefnogi eu dyheadau. Mae angen sicrhau bod dysgwyr yn ystyried llwybrau cymwysterau mewn modd cyfannol, heb gael eu dylanwadu'n ormodol gan angen uniongyrchol am gyllid. Mae rhai cymwysiadau'n rhy hawdd i ddysgwyr glicio drwyddynt: cofrestru i ymrwymo i ffioedd ac amser na allant eu fforddio o bosibl, gan ddiystyru llwybrau dysgu mwy addas. Mae Butcher a Curry (2022) yn nodi bod angen rhoi cyngor i'r dysgwyr sy'n cofrestru ar gyfer astudiaeth ar-lein cyn iddynt wneud hynny er mwyn eu hysbysu ynghylch gofynion dysgu digidol). Yn aml, mae gan ddysgwyr sy'n chwilio am lwybrau Mynediad a Sylfaen syniad eang o'r hyn y maent am ei wneud, ond nid oes ganddynt lawer o ddealltwriaeth o'r sector addysg drydyddol eang ac amrywiol. Efallai nad oes ganddynt rwydweithiau teuluol sydd â phrofiad blaenorol o ddysgu trydyddol i'w cynghori, yn aml maent yn ddihyder ac nid ydynt fel arfer yn ymwybodol o'r sgiliau academaidd y mae angen cymorth gyda hwy i ddatgloi eu potensial yn llawn.

Yn unol â dull Llywodraeth Cymru o ddod â'r sector trydyddol ynghyd, gallai adnodd rhyngweithiol ddangos mwy o gymwysterau a rhoi darlun cyfannol i'r dysgwyr o gymorth ariannol a hyfforddiant a ddarperir, gan arwain at

gyflogaeth o ansawdd da. Mae angen deall terminoleg ynghylch darpariaeth dysgu, a fframwaith clir fel y gall dysgwyr ddeall gwerth cymwysterau gwahanol yn llwyr. Ystyrir bod ysgolion ac athrawon yn tynnu sylw at y llwybr uniongyrchol i mewn i'r brifysgol felly efallai nad yw'r rhai sydd wedi ymddieithrio o ddysgu mewn ysgolion yn sylweddoli bod ffyrdd o ddychwelyd i ddysgu uwch yn ddiweddarach yn eu bywydau.

Un enghraifft bresennol o wefan sy'n cyflwyno cyfleoedd dysgu lleol i oedolion, gan gynnwys Mynediad a Sylfaen, yw'r gronfa ddata Partneriaeth Dysgu Oedolion ar gyfer ardal Abertawe (a Chastell-nedd): https://www.learningswansea.wales/adre. Caiff hon ei diweddaru gan y sefydliadau dysgu eu hunain. Ystyrir bod darparwyr lleol eraill yn datblygu adnoddau tebyg.

Mae gan Gyrfa Cymru ddiddordeb mewn cefnogi map rhyngweithiol o'r sector, a allai adeiladu ar ei adnodd ei hun: mae ar gael yn https://gyrfacymru.llyw.cymru/cyrsiau-a-hyfforddiant. Mae rhanddeiliaid eraill yng Nghymru a allai gymryd rhan i ddatblygu'r adnodd hwn. Fodd bynnag, mae cyllideb Gyrfa Cymru yn ansicr ar hyn o bryd: mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo gwtogi yn hytrach nag ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sy'n oedolion a'r rheini sy'n dychwelyd i gyflogaeth neu sydd angen newid gyrfa. Roedd pryder ynghylch pwy fyddai'n gyfrifol am gynnal a diweddaru adnodd o'r math hwn, y byddai angen gwneud gwaith parhaus arno i'w gadw'n gyfredol. Byddai angen dyraniad cyllid cynaliadwy ar gyfer yr adnodd ac er mwyn ymgysylltu â dysgwyr trosglwyddo ôl-16 a dysgwyr sy'n oedolion i'w ddefnyddio'n briodol.

# 7. Cwestiynau ymchwil

Y cwestiwn ymchwil cychwynnol a luniwyd ar ddechrau'r prosiect yn nogfennaeth y cynnig oedd:

**Sut mae'r ddarpariaeth Mynediad yng Nghymru yn paratoi dysgwyr ar gyfer dysgu uwch, gan archwilio cwmpas, argaeledd ac addasrwydd cyrsiau (o ystyried y cymorth sydd ar gael) ar gyfer dysgwyr trosglwyddo ôl-16 a dysgwyr sy'n oedolion sy'n dychwelyd?**

Ychwanegwyd Blwyddyn 0 Sylfaen i'r cylch gwaith ac ehangwyd cwmpas y prosiect i gynnwys darpariaeth amser llawn yn ogystal â rhan-amser.

Cafodd y cwestiwn ymchwil hwn ei fireinio mewn trafodaethau gweithredol a chyfarfodydd grŵp llywio gyda'r tîm ymchwil i gynnwys dau is-gwestiwn ychwanegol:

**A all dysgwyr mewn sefyllfaoedd amrywiol gael mynediad rhwydd i'r ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen [Blwyddyn 0] yng Nghymru i mewn i Addysg Uwch? Gan gynnwys:**

- Oedolion sy'n dychwelyd i ddysgu;
- Dysgwyr trosglwyddo ôl-16;
- Dysgwyr mewn ardaloedd lle ceir amddifadedd economaidd-gymdeithasol;
- Dysgwyr mewn ardaloedd lle ceir tlodi digidol;
- Darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- Dysgwyr mewn lleiniau arfordirol ac ardaloedd gwledig.
- Pa mor hyblyg yw'r ddarpariaeth bresennol, ar gyfer dysgwyr ag anghenion amrywiol?
- Lleoliad daearyddol;
- Dyluniad y cwrs;
- Amserlennu.

**Pa lwybrau eraill all fod yn cefnogi dysgwyr i mewn i AU?**

- Cyrsiau Sylfaen Blwyddyn 0 (ai cyrsiau sylfaen yw'r brif ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr trosglwyddo ôl-16 gyda chyrsiau Mynediad yn bennaf ar gyfer oedolion sy'n dychwelyd i ddysgu);
- Cyrsiau byr anhraddodiadol ac opsiynau anachrededig.

# 8. Canfyddiadau ymchwil

Roedd y cwestiynau ymchwil yn cynnwys rhai am leoliadau difreintiedig a oedd eisoes yn hysbys. Er mwyn cefnogi'r broses o ddewis data ar hyn, gwnaethom greu cod ar gyfer "Dysgwyr mewn ardaloedd difreintiedig penodol".

Gwnaethom chwilio am ddata ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond ni chodwyd hyn fel pwnc gan y cyfranogwyr.

Cafodd y codau eraill eu creu'n uniongyrchol o'r data a gasglwyd yn y gweithdai gyda staff a'r cyfweliadau gyda'r dysgwyr, sef:

- COVID ac effaith y pandemig
- Recriwtio
- Cyllid ac ariannu
- Cydbwysedd gwaith/bywyd/astudio
- Darpariaeth wyneb yn wyneb/cyfunol/ar-lein
- Iechyd meddwl ac anableddau eraill
- Rhywedd, teulu a rhianta
- Oedran
- Gofod a Lle
- 'Llwyddiant'

Daw 'llwyddiant' yn rhannol o ddymuniad partneriaid y prosiect i ddeall profiad y dysgwyr o hyn. Fodd bynnag roedd data hefyd yn ymwneud â dysgwyr yn llwyddo wrth iddynt symud ymlaen o ddarpariaeth Mynediad a Sylfaen.

Cefnogwyd y codau hyn yn y fframwaith cysyniadol: tybiannol, sefydliadol a strwythurol, a ddatblygwyd o un a ddefnyddir yn eang wrth ymchwilio i wella cyfranogiad (gweler e.e. Gorard et al 2016). Gwnaethom hefyd geisio cydnabod canfyddiad Elmi-Glennan (2013): mae rhwystrau hefyd yn ffactorau ysgogi.

Un cod arall a ddaeth o'r cyfweliadau â staff AB ac AU oedd 'cydweithio a chystadleuaeth'. Roedd hyn ond yn gysylltiedig â lefel 'sefydliadol' y fframwaith cysyniadol, â'r cydberthnasau rhwng sefydliadau ac asiantaethau ar draws y sector trydyddol.

## Dysgwyr mewn ardaloedd difreintiedig penodol

Roedd nifer o ffactorau a nodwyd gan y cwestiynau ymchwil eu bod yn gysylltiedig â materion daearyddol a thopograffigol posibl:

- Dysgwyr mewn ardaloedd lle ceir tlodi digidol,
- Dysgwyr mewn lleiniau arfordirol ac ardaloedd gwledig,
- Lleoliad daearyddol.


Yma rydym wedi datblygu dau fap dangosol, sy'n dangos bod sefydliadau sy'n cynnig cyrsiau Mynediad a Sylfaen wedi'u lleoli ar arfordir Cymru a'r gororau, gyda phoblogaethau yng nghanolbarth Cymru yn aml yn bell o leoliad coleg ffisegol. Mae'r mapiau'n dangos bod yr ardal ganolog hon hefyd yn un lle ceir darpariaeth band eang isel.

Mae dosbarthiad o leoliadau coleg a phrifysgol ffisegol o amgylch y lleiniau arfordirol, lle nodir bod tlodi cudd (gweler e.e. Corfa, 2017). Ceir awgrym mai ardaloedd arfordirol a mewndirol cyfagos o Aberystwyth (lle na cheir band eang cyflym iawn) tuag at Abertawe (lle ceir band eang cyflym iawn) sydd â lefelau mynediad i'r rhyngrwyd isaf.


Mae rhannau gwledig o ganolbarth Cymru yn ardal denau ei phoblogaeth, fodd bynnag, mae Addysg Cymru (2018) yn cydnabod anghenion addysgol cymunedau a phwysigrwydd cefnogi datblygiad cynaliadwy drwy gynnal ysgolion yn yr ardal. Yn dilyn y pandemig, gallai llawer yng nghanolbarth Cymru fod wedi colli allan ar addysg lawn oherwydd tlodi digidol.

> "Digital exclusion, linked to data poverty, poor connectivity, lack of digital equipment and digital literacy, is an increasingly important barrier."
>
> (Holtom, Bowen a Pells, 2021, t.31).

Mae grŵp Castell-nedd Port Talbot yn cynnal rhywfaint o ddarpariaeth yn y Drenewydd, ac mae rhai sefydliadau eraill yn cynnig darpariaeth allgymorth mewn ysgolion a chanolfannau cymunedol, yn benodol Addysg Oedolion Cymru. Mae darpariaeth dysgu o bell Y Brifysgol Agored hefyd ar gael i ddysgwyr yng nghanolbarth Cymru, er y gall problemau cysylltedd WiFi effeithio ar ymgysylltiad dysgwyr.




*Ffig 1: Lleoliadau ffisegol sefydliadau AB ac AU yng Nghymru*




*Ffig 2: Darpariaeth band eang ledled Cymru*

## COVID ac effaith y pandemig

- Tueddiadol

Tarfodd y cyfyngiadau symud yn 2020/21 ar addysg ledled y byd. Canfu darparwyr cyrsiau Mynediad a Sylfaen fod rhai dysgwyr wedi cael cymwysterau sy'n briodol ar gyfer lefel eu sgiliau gyda graddau disgwyliedig, ond nid y wybodaeth lawn oedd ei hangen arnynt ar gyfer astudiaethau Addysg Uwch. Ni chafodd rhai y graddau roedd eu hangen arnynt. Oherwydd amodau ynysig dysgu gartref, collodd rhai dysgwyr y cyfle i feithrin y sgiliau cymdeithasol roedd eu hangen arnynt ar gyfer darpariaeth addysg wyneb yn wyneb.

Disgrifiodd ein dysgwyr a gymerodd ran bwysigrwydd dysgu mewn grŵp, gyda chefnogaeth sgyrsiau dros WhatsApp ac astudio gyda'i gilydd yn y llyfrgell. (Mae'n hysbys bod dysgu mewn grŵp yn arwain at well dealltwriaeth ac felly at well cyflawniad.)

"Rydyn ni'n helpu ein gilydd ac rydym fel grŵp teulu."

Dywedodd sefydliadau yng Nghymru wrthym eu bod wedi gweld gostyngiad mewn niferoedd, pan symudodd dysgu ar-lein yn llwyr. Roedd hyn oherwydd diffyg sgiliau digidol a phroblemau tlodi digidol. Roedd dysgwyr gofal iechyd hefyd dan bwysau yn y gwaith yn ystod y pandemig, gan fethu cael amser i astudio.

Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai dysgwyr a roddwyd ar ffyrlo wedi cael amser i fyfyrio, ac wedi penderfynu chwilio am lwybr i yrfa newydd.

- Sefydliadol

Mae'n hysbys bod lleoliadau addysg yn cael heintiau feirysol ("ffliw y glas") Hyd yn oed yn ystod y prosiect ymchwil bach hwn, cawsom gyfranogwyr nad oeddent yn gallu mynd i weithdai am eu bod wedi cael prawf positif ar gyfer COVID-19; gwnaethom gyfweld ag un cyfranogwr ar-lein a oedd yn ymuno o gartref, ar ôl ail rownd o COVID-19 eleni.

Bu'n rhaid i sefydliadau ddatblygu gallu ar-lein, mewn ffyrdd y mae rhai wedi gallu parhau i'w datblygu ar ôl y pandemig.

Er bod rhai sefydliadau wedi nodi bod dysgwyr yn awyddus i ddychwelyd i fannau wyneb yn wyneb – yn enwedig dysgwyr hŷn, canfu eraill bod dysgwyr

wedi dod i arfer â gweithio ar eu pen eu hunain, ac nad ydynt yn defnyddio mannau grŵp na chyfleoedd i ddysgu fel grŵp mwyach.

- Strwythurol

Mae'r rhaglen Adnewyddu a Diwygio yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn ymrwymo i sicrhau nad yw'r rhai a fethodd chwilio am waith na hyfforddiant dros gyfnod y pandemig yn mynd yn 'genhedlaeth goll', ac yn cael eu goddiweddyd gan y rhai a ddaeth ar eu holau ar ôl i gyfleoedd cyflogaeth ac addysg ddechrau gael eu cynnig eto.

## Recriwtio

- Tueddiadol

Disgrifiodd un dysgwr ei fod wedi bod yn chwilio am radd i'w hastudio, a'i fod wedi gweld gwybodaeth am gymorth Mynediad i mewn i'r radd. Gan fod hyn yn edrych yn ddefnyddiol (a'i fod am ddim), cofrestrodd y dysgwr. Pan fydd dysgwyr yn dechrau ar raglen gradd ac yna'n ei chael hi'n anodd, mae'n anodd i'r darparwyr eu darbwyllo i gymryd yr hyn maent yn ei ystyried fel cam yn ôl i gwrs Mynediad. Mae llai o gymorth ariannol ar gyfer cwrs Mynediad nag ar gyfer rhaglen gradd; mae hyn hefyd yn golygu ei fod yn gam yn ôl anneniadol.

Soniodd rhai dysgwyr am weithio tuag at dystysgrifau'r Brifysgol Agored ac yna gael lle ar raglen Mynediad. Roedd un dysgwr wedi mynd i Goleg Trydyddol ac wedi gallu defnyddio'r cymwysterau hynny fel prawf o'i allu mathemategol. Roedd dysgwyr wedi mynd i Nosweithiau Agored ac wedi llenwi'r ffurflen gais yno gyda help y staff. Fodd bynnag, mae darparwyr hefyd yn gweld pobl ifanc sy'n teimlo bod Diwrnodau Agored wedi eu llethu.

Mae darparwyr yn gweld rhai dysgwyr yn dod ar gyrsiau Mynediad a Sylfaen am nad ydynt wedi cael y graddau Safon Uwch oedd eu hangen arnynt i fynd i Addysg Uwch. Fel hyn, mae myfyrwyr Sylfaen yn cael profiad da mewn sefydliad lle maent yn bwriadu astudio.

Gall fod yn rhy hawdd i ddysgwyr glicio drwy geisiadau ar-lein i astudio. Mae gwerth mewn cael sgyrsiau personol er mwyn nodi'r cyfleoedd gorau o blith yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth dysgu sydd ar gael.

Roedd adegau lle nad oedd dysgwyr wedi cael eu hysbysu'n briodol, a gallent hyd yn oed gael eu hanfon yn ôl ar ôl treulio amser helaeth yn astudio am nad oedd ganddynt y set lawn o gymwysterau roedd eu hangen arnynt. Yn benodol, gallai dysgwyr feddwl y byddai cwrs Mynediad yn unig yn ddigon i fynd i'r brifysgol, heb sylweddoli bod angen TGAU Mathemateg a Saesneg neu gymwysterau cyfatebol arnynt hefyd. (Gall sefydliadau gynnig cyrsiau TGAU Mathemateg a Saesneg am ddim ochr yn ochr â chwrs Mynediad).

- Sefydliadol

Roedd y staff yn rhwystredig oherwydd diffyg cymorth sefydliadol ar gyfer recriwtio. Roeddent yn credu bod darpar ddysgwyr yn cael eu colli'n ddiangen. Mae sefydliadau'n defnyddio ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, ond roedd staff o'r farn bod y dysgwyr roeddent am eu cyrraedd yn annhebygol o 'ddilyn' neu 'hoffi' cyfrifon a phostiadau sy'n ymwneud â sefydliadau addysgol. Mae gwefannau prifysgolion yn anodd eu llywio hyd yn oed ar gyfer y rheini sydd eisoes yn hyddysg mewn TG.

Roedd y staff o'r farn bod negeseuon wedi'u personoli yn allweddol a disgrifiodd Gyrfa Cymru bod gan ddysgwyr anghenion amrywiol a bod angen cymorth wedi'i bersonoli arnynt. Roedd y staff yn defnyddio sawl ffordd amrywiol i estyn allan a hysbysu dysgwyr am ddarpariaeth. Postiodd un aelod o staff ar ei thudalen Facebook bersonol a recriwtiodd bum dysgwr. Mae dysgwyr yn dod â ffrindiau; daeth un fam a oedd wedi dilyn cwrs Mynediad â'i merch i gofrestru. Mae teyrngarwch tuag at sefydliad sydd wedi cefnogi dysgwr. Aeth darparwyr allan i'r gymuned i roi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, gan wahodd darpar ddysgwyr i "ddod i gael paned o goffi". Roeddent yn cefnogi teithiau o gampysau.

Gyda cholegau yn creu partneriaeth â phrifysgolion, mae ymwybyddiaeth gynyddol o ddarpariaeth Sylfaen. Weithiau bydd prifysgolion yn cyfeirio dysgwyr nad ydynt yn barod ar gyfer y rhaglen radd at astudiaethau Mynediad neu Sylfaen.

Roedd rhai sefydliadau'n ceisio estyn allan i ysgolion, ond gyda thîm bach ni theimlwyd bod hyn yn gynaliadwy. Nododd cynghorwyr prifysgolion a oedd yn gwneud gwaith allgymorth ag ysgolion bod Ysgolion Cynradd yn awyddus i academyddion siarad am fathau o yrfaoedd yn eu maes yn ogystal â rhoi cyflwyniadau ar ymchwil.

Roedd trafodaeth ynghylch y ffordd orau o gefnogi dysgwyr wrth recriwtio. Teimlwyd, er bod athrawon yn wybodus yn eu pwnc, a bod y cwricwlwm newydd yn eu llywio tuag at nodi cyfleoedd ar gyfer swyddi, eu bod ar y cyfan yn gwybod sut i ddod yn athro yn well na llwybrau gyrfa eraill. Roedd darlithwyr a thiwtoriaid o'r farn y gallent roi cyngor da am gyrsiau a ddarperir, ac yn aml roeddent yn gweld, er bod gan y dysgwr syniad da o'r hyn roedd am ei astudio, y gallai sgwrs bersonol bwyntio at ddarpariaeth fwy addas.

Nod gwasanaethau gyrfaoedd mewn sefydliadau yw cefnogi myfyrwyr presennol i mewn i gyflogaeth, yn hytrach na chynghori darpar ddysgwyr ynghylch y ddarpariaeth addysgol orau i gofrestru ar ei chyfer, er mwyn sicrhau eu bod yn y sefyllfa orau i gael cyflogaeth well.

- Strwythurol

(Aelod o staff AU) "Pwy sy'n rheoli'r cyfeiriadau?"

Mae llawer o gyfeiriadau ar gael – nad ydynt yn cyrraedd dysgwyr mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd difreintiedig eto.

Mae cyngor gyrfaoedd ar-lein yn tueddu i fod wedi'i anelu at bobl iau. Mae canfyddiad nad yw gwasanaethau gyrfaoedd wedi'i ddarparu ar gyfer oedolion: lefelau ymwybyddiaeth isel o waith Cymru'n Gweithio ac Addysg Oedolion Cymru.

Mae cynghorwyr Gyrfa Cymru sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion uwchradd yn blaenoriaethu dysgwyr Blwyddyn 11 nad ydynt yn siŵr pa gyfeiriad i'w ddilyn eto, ac maent hefyd yn cefnogi eu rhieni. Mae cyfleoedd posibl yn bodoli i estyn allan yn ehangach, yn benodol drwy Ysgolion Cynradd. Gallai rhieni y mae eu plant wedi dechrau yn yr Ysgol Gynradd groesawu cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar adeg pan maent wedi cael rhywfaint o amser rhydd.

Gall fod angen rhagor o gymorth i annog dysgwyr i ddilyn llwybrau penodol. Nid oedd darparwyr o'r farn bod digon o ddysgwyr yn dod drwy addysg iechyd a gofal cymdeithasol i gefnogi gwasanaethau lle na cheir digon o staff. Nodwyd, er mai Gofal iechyd yw'r cwrs Mynediad mwyaf poblogaidd, nad oedd rhai pynciau e.e. y Gyfraith a Pheirianneg, yn gweld llawer o fyfyrwyr yn dod drwy gwrs Mynediad. Gall hyn adlewyrchu cred barhaus ymysg dysgwyr difreintiedig nad yw'r rhain yn addas ar eu cyfer nhw.

## Cyllid ac ariannu

- Tueddiadol

Ystyriwyd mai problemau ariannol mewn sefyllfaoedd economaidd-gymdeithasol gyfyngedig a'r argyfwng costau byw cynyddol oedd y prif rwystrau i ddysgwyr Mynediad a Sylfaen, gan orfodi llawer o ddysgwyr Mynediad yn benodol i ddewis rhwng oriau gwaith hirach i gefnogi eu teuluoedd ac astudio. Nododd Holtom, Bowen a Pells (2021) mai rhwystrau ariannol oedd un o'r prif resymau pam nad yw pobl yn ymgysylltu mewn dysgu yn ddiweddarach yn eu bywydau. Ar yr un pryd, y dymuniad i wella eu sefyllfa ariannol nhw a'u teuluoedd drwy newid gyrfa a datblygiad yw un o'r prif ffactorau ysgogi i ddysgwyr. Mae sefyllfa'n datblygu lle mae ffactor ysgogi/rhwystr yn dod yn gymaint o rwystr fel nad yw'n ysgogi'r dysgwr mwyach. Roedd barn gref bod sefyllfa ariannol mewn argyfwng costau byw yn mynd yn ormod o rwystr i lawer o ddysgwyr ei oresgyn.

Gallai dysgwyr Sylfaen o deuluoedd incwm isel ei chael hi'n anodd am eu bod yn erbyn mynd i ddyled. Yn aml, nid oes gan y dysgwyr hyn gyllid teuluol i'w helpu drwy broblem fyrdymor hyd yn oed. Gallai dysgwyr Mynediad a Sylfaen o gefndiroedd gofal fod yn arbennig o fregus, gan nad oes ganddynt gymorth teuluol o gwbl.

- Sefydliadol

Mewn cyrsiau Mynediad, weithiau, mae'n rhaid trefnu amserlenni fel y gall dysgwyr gael gafael ar gyllid grant llawn, lleihau costau teithio a chael amser ar gyfer gwaith. Mae dau ddiwrnod llawn neu dri diwrnod ar adegau sy'n golygu y gellir mynd â'r plant i'r ysgol a'u casglu, yn galluogi dysgwyr i gadw eu cyllid a'u gwaith â thâl. Mae dysgwyr difreintiedig yn brin o amser ac yn erbyn dyled (Butcher a Curry, 2022). Fel y gwelir o dan *Cydbwysedd gwaith/bywyd/astudio* isod, mae'r staff yn pryderu y bydd y gofynion ar ddysgwyr Mynediad a Sylfaen yn cynyddu hyd yn oed mwy.

Bydd staff mewn un sefydliad mewn ardal o amddifadedd uchel yn gofyn i'r myfyrwyr lenwi ffurflen amgylchiadau eithriadol ar unwaith pan fyddant yn cyrraedd, er mwyn nodi a chael cymorth i'r nifer mawr yr oedd y gwasanaethau cymdeithasol yn gwybod amdanynt fel plentyn, neu oedd â theulu yn

gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, neu y nodwyd eu bod yn flaenoriaeth uchel mewn ffyrdd eraill.

Mae rhai colegau AB yn cynnig cymorth fel talebau bwyd, cynhyrchion hylendid am ddim a chyflenwadau banc bwyd. Mae rhai yn cynnig brecwast am ddim i ddysgwyr – gall hyn fod yn ffactor ysgogol, gan roi cyfle i'r dysgwyr sgwrsio dros goffi. Mae gan ambell sefydliad arian ar gyfer myfyrwyr sydd mewn dirfawr angen. Disgrifiodd un y gall eirioli i gael awdurdod lleol myfyriwr i ryddhau cymorth, y gellir ei wrthod os bydd y myfyriwr yn cysylltu â'r awdurdod fel unigolyn preifat.

Mae'r staff yn mynd at sawl asiantaeth (gan gynnwys Cyllid Myfyrwyr Cymru, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyngor ar Bopeth) i gael arweiniad ariannol i'r dysgwyr. Yn aml mae gan y dysgwyr eu hunain wybodaeth fwy cyfredol. Mae cyngor ariannol ar gael gan y Gwasanaethau Myfyrwyr, ond mae wedi'i anelu tuag at ddysgwyr sydd wedi cofrestru yn hytrach na chynghori dysgwyr cyn iddynt wneud cais.

- Strwythurol

Rhoddir cyllid ar gyfer myfyrwyr Mynediad a Sylfaen mewn ffyrdd cwbl wahanol. Roedd dryswch ynghylch manylion llawn yr hyn sydd ar gael i fyfyrwyr, a chydnabu un sefydliad fod y wybodaeth a rannwyd ymysg y dysgwyr yn fwy cyfredol na'r wybodaeth oedd gan y staff.

Gall y gwahaniaethau o ran cyllid effeithio'n benodol ar famau sydd am gael mynediad i gymwysterau gradd nyrsio, yn erbyn cefndir o ddarparwyr gofal iechyd lle ceir diffyg staff enbyd.

Mae darparwyr yn cytuno ei bod yn hanfodol i ddysgwyr gael mynediad i fathau gwahanol o ddarpariaeth a ariennir. Mae cyrsiau Mynediad sydd am ddim i'w darparu yn fwy addas i rai dysgwyr na chymryd benthyciad i dalu ffioedd cwrs Sylfaen a chael grant cynhaliaeth. Fodd bynnag, mewn argyfwng costau byw, roedd staff AB ac AU yn bryderus iawn ynghylch cyfraddau recriwtio a chadw gostyngol, a dysgwyr yn derbyn mwy o waith â thâl na'r hyn y gallant ei gydbwyso'n rhesymol â'u hastudiaethau.

## Trosolwg eang o gyllid Sylfaen yn erbyn Mynediad:

Mae **dysgwyr Sylfaen** yn gwneud cais am fenthyciad myfyrwyr i dalu ffioedd (dros bedair neu bum mlynedd eu hastudiaeth), a grantiau cynhaliaeth ar gyfer costau byw. Byddai'r rhai sydd â dibynyddion yn cael tâl ychwanegol.

Nid oes raid i **ddysgwyr Mynediad dros 19 oed** dalu ffi: gallant gael Cyfrif Dysgu Personol, ond fel arfer mae angen iddynt weithio, a hawlio Credyd Cynhwysol yn aml. Mae'n rhaid i ddysgwyr fod yn "gadarn" gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau os cânt eu cwestiynu ynghylch p'un a ydynt ar gwrs Amser Llawn neu Ran-amser. (Rhaid ei bod yn ddiraddiol ac yn llawn straen i orfod amddiffyn eu hawl i gael cymorth ariannol wrth geisio dilyn llwybr addysg priodol.) Mae Grant Dysgu'r Llywodraeth ar gael i rai dysgwyr, ond nid os bydd incwm priodasol ar y cyd yn mynd â nhw dros y trothwy.

Roedd un darparwr wedi gweld niferoedd yn haneru bron am nad oedd y grant cynhaliaeth yn ddigon i'r dysgwyr fyw arno. Fodd bynnag, mae eraill yn gweld mwy o gymorth sy'n galluogi dysgwyr i barhau â'u hastudiaethau. Soniwyd am nifer o ffynonellau cyllid gan ddarparwyr mewn cyfweliadau, gan gynnwys Ymgyrraedd yn Ehangach a Dechrau'n Deg, ynghyd â Grant Dysgu'r Llywodraeth a bwrsari ar gyfer dysgwyr gofal iechyd. Roedd darpariaeth ran-amser ratach ar gyfer y cwrs Sylfaen yn ddeniadol i ddysgwyr oedd am osgoi mynd i ddyled, er y gall dysgwyr ruthro i gwblhau'r cais a dilyn y llwybr amser llawn gan gydbwyso â gwaith amser llawn. (Weithiau ystyrir bod rhieni sy'n dilyn rhaglenni gradd yn cyfaddawdu o ran eu cyflawniad drwy fynd am astudiaeth amser llawn - gyda grant amser llawn dros dair blynedd ar gyfer cyllid y teulu, yn hytrach na grant cynhaliaeth rhan-amser dros chwe blynedd.)

Un broblem o ran cefnogi dysgwyr sy'n oedolion oedd bod cyllid craidd Gyrfa Cymru wedi'i haneru. Nid yw'r cymorth ychwanegol i oedolion drwy Cymru'n Gweithio wedi gwneud iawn am yr hyn a gollwyd yn flaenorol. Mae ansicrwydd ynghylch y gyllideb ar gyfer Gyrfa Cymru yn y dyfodol: mae hyn yn peryglu'r ddarpariaeth o wybodaeth, cyngor ac arweiniad yn enwedig ar gyfer dysgwyr hŷn. Ar yr adeg hon o anawsterau economaidd, gyda phroblemau penodol i rai o ran cael gwaith neu hyfforddiant, bydd angen i nifer cynyddol o bobl gael cymorth ar adeg pan mae hyn yn cael ei gwtogi.

## Cydbwysedd gwaith/bywyd/astudio

- Tueddiadol

Dywedodd un Cynrychiolydd Myfyriwr mai'r prif gwestiwn a ofynnir gan ddysgwyr yw a allant astudio wrth weithio. Roedd Gyrfa Cymru yn cytuno. Ychwanegodd Holtom, Bowen a Pells (2021) ddiffyg amser at broblemau ariannol fel y prif resymau y mae oedolion yn oedi cyn dod yn ddysgwyr. Gall dysgwyr symud i waith rhan-amser er mwyn cael mwy o amser i astudio, ond mae llawer yn ceisio cydbwyso gwaith amser llawn gyda dwy neu dair swydd hyd yn oed, ynghyd ag amser i'r teulu ac i astudio. Mae darparwyr Mynediad a Sylfaen yn gweld bod rhai myfyrwyr yn gweithio y tu hwnt i'r hyn y gallant ymdopi ag ef, a pharhau i gyflawni at lefel resymol. Os gallant ymdopi â hyn ar lefel Sylfaen/Mynediad, yn aml byddant yn cael trafferth yn ystod Blwyddyn Gyntaf neu Ail Flwyddyn eu gradd.

Ar yr un pryd, mae'r profiad gwaith a gaiff dysgwyr ochr yn ochr â'u hastudiaethau yn werthfawr iddynt. Mae llawer o fyfyrwyr gofal iechyd yn dechrau mewn rôl â thâl isel, fel cynorthwyydd gofal efallai, ac yn astudio am eu bod am ddatblygu yn yr un sector. Mae gwaith yn rhwystr ac yn ffactor ysgogi; y pryder yw ei fod yn mynd yn fwy o rwystr nag o ffactor ysgogi.

Roedd darparwyr o'r farn nad oedd dysgwyr bob amser yn sylweddoli beth roeddent yn cofrestru ar ei gyfer. Mewn un sefydliad, gall hyn fod wedi arwain at y ffaith nad oedd dysgwyr yn gwneud y gwaith anghydamseredig ar gwrs dysgu cyfunol, a bod prosesau gwirio a monitro wedi gorfod cael eu rhoi ar waith i sicrhau eu bod yn dal i fyny. Hefyd, gall cyflogwyr fod wedi cytuno'n wreiddiol i roi amser bant iddynt astudio ond eu bod wedi tynnu'r cynnig yn ôl wedyn.

Nid yw myfyrwyr bob amser yn sylweddoli bod cymorth i ddysgu yn wahanol mewn colegau a phrifysgolion. Efallai na fydd tasgau dosbarth yn orfodol. Os nad yw myfyrwyr wedi rheoli tasg fach, weithiau nid ydynt yn troi i fyny, gan golli sesiwn gyfan o help.

> [Cynrychiolydd Myfyrwyr] “Ceisio peidio casáu astudiaethau fel yn yr ysgol.”

Roedd lefelau hyder yn arbennig o isel mewn mathemateg.

> (Aelod o staff AU) “Dwi ddim yn hoffi mathemateg. O ble y daw hyn?”

Awgrymodd dysgwr a darparwr ein bod wedi mynd yn 'gymdeithas Amazon': gallwch archebu ar-lein a chael eich archeb ar yr un diwrnod. Caiff hyn ei adlewyrchu yn y disgwyliadau o'r ddarpariaeth dysgu. Efallai y bydd dysgwyr am gofrestru a chael tystysgrif yn gyflym gan eu galluogi i symud ymlaen. Nid yw dysgwyr bob amser yn gwerthfawrogi ehangder llawn y sgiliau a'r galluoedd a gânt drwy brofiad dysgu wedi'i drochi dros amser.

Dywedodd darparwyr fod myfyrwyr gofal iechyd weithiau'n gallu cymryd gwaith shifft nos: gan gyflawni eu haseiniadau yn ystod oriau mân y bore.

Gwelodd rhai myfyrwyr Mynediad fod nifer yr aseiniadau dros y cyfnod astudio yn llethol, gan nodi eu bod wedi torri i lawr am eu bod yn methu ymdopi (er eu bod wedi cael cefnogaeth i gwblhau'n llwyddiannus).

> "O fewn yr 8-9 mis hynny, roeddem wedi cael tua 33 o aseiniadau."

Ystyriwyd bod darpariaeth ran-amser yn dod yn fwy poblogaidd, ond na all llawer o ddysgwyr a'u darparwyr gael digon o gymorth ariannol na chyllid i dalu ffioedd.

- Sefydliadol

Mae'r staff yn cynnig amrywiaeth o gymorth personol gan diwtoriaid a gwasanaethau llesiant. Maent yn ceisio cynllunio gwaith monitro a gwaith ffurfiannol ynghyd ag asesiadau crynodol, er bod y myfyrwyr ar gyrsiau Mynediad Agored Cymru eisoes yn teimlo eu bod dan bwysau am eu bod yn ysgrifennu aseiniadau byr bron bob wythnos. (Mae asesiad Agored Cymru yn mesur i ba raddau y mae'r myfyriwr wedi ymgysylltu â'r deunyddiau, ond am ei fod yn cyfrif tuag at y marc terfynol, mae'n rhy hwyr ar y cam hwn i helpu myfyriwr sydd ar ei hôl hi. Felly, mae sefydliadau'n edrych ar brosesau monitro a gwirio cynharach, ond gan geisio peidio ag ychwanegu at y llwyth asesu, na llwyth gwaith y staff).

Roedd y staff yn teimlo pwysau gan y rheolwyr i addysgu cyflogadwyedd a chanlyniadau. Er y gallai pynciau fel Troseddeg a Seicoleg fod yn boblogaidd, yn aml bydd myfyrwyr yn dod ar raglenni Mynediad neu Sylfaen sydd â chwmpas eang yna'n sylweddoli bod ganddynt fwy o ddiddordeb mewn pynciau eraill.

Os na nodwyd bod y cwrs Mynediad neu Sylfaen yn cwmpasu pwnc, gallai'r dysgwyr feddwl nad oedd yn addas hyd yn oed os gallai arwain at astudiaethau yn y pwnc hwnnw. Soniodd un darparwr hefyd ei fod wedi newid cynnwys modiwl er mwyn sicrhau gwell cymorth pwnc penodol wrth i ddysgwyr ddatblygu i lefel gradd.

Fel gyda sicrhau bod dysgu'n cyd-fynd â gofal plant, roedd rhai sefydliadau'n ceisio defnyddio amserlenni i gefnogi dysgwyr sydd â phatrymau gwaith gwahanol. Ond, pan symudodd un sefydliad i un diwrnod hir o ddarpariaeth, gostyngodd y lefelau presenoldeb.

Gallai dosbarthiadau nos alluogi myfyrwyr sydd mewn gwaith i ymgysylltu a gallai fod yn arbennig o addas i'r rheini sydd am newid gyrfa.

Mae cyrsiau rhan-amser yn boblogaidd, er bod dwbl y siawns y bydd digwyddiadau bywyd yn golygu na fydd dysgwyr yn gallu eu cwblhau. (Gallai'r rhain helpu i gefnogi dysgwyr sy'n ei chael hi'n anodd hanner ffordd drwodd ac yna sy'n methu cwblhau heb gydnabod yr ymdrech. Gellir eu trosglwyddo i gwrs rhan-amser).

Bydd un darparwr yn addysgu un grŵp Mynediad dros dri diwrnod hirach yn y coleg, ac ail grŵp dros bedwar diwrnod byrrach.

Fel arfer, roedd amserlenni sefydlog ar gyfer cyrsiau Mynediad a Sylfaen drwy gydol y flwyddyn, a oedd yn helpu'r dysgwyr i sefydlu patrymau shifft yn y gwaith. Fodd bynnag, roedd yr amserlenni ar gyfer cyrsiau gradd yn fwy amrywiol, sy'n creu problemau parhaus i'r dysgwyr.

Nid oedd yn ddefnyddiol i ddysgwyr os oedd llawer o amser ar gael yng nghanol y diwrnod ar gyfer astudiaeth annibynnol.

Roedd angen gwneud llawer o waith o ran logisteg er mwyn sicrhau y gellid amserlennu staff, a allai fod yn addysgu cyrsiau Mynediad, Sylfaen a Safon Uwch, ynghyd ag ystafelloedd, er mwyn cefnogi'r dasg o ddarparu yn briodol.

Roedd y staff yn bryderus iawn ynghylch y ffaith bod nifer sylweddol a chynyddol o fyfyrwyr o gefndiroedd economaidd difreintiedig, weithiau'n gorfod talu rhenti uchel neu wynebu costau byw cynyddol eraill. Gallent weld na

fyddai'r myfyrwyr hyn yn llwyddo i gyflwyno aseiniadau am fod angen iddynt weithio oriau hir, a dechrau mynd ar ei hôl hi gyda'u hastudiaethau.

**Astudiaeth Achos Y Brifysgol Agored: Asesu**

Mae'r Brifysgol Agored yn cynnal asesiad parhaus ar ei holl fodiwlau. Mae gan gyrsiau Mynediad bedwar Aseiniad a Gaiff eu Marcio gan Diwtoriaid a phum Aseiniad a Gaiff eu Marcio gan Gyfrifiadur mewn cyfnod astudio o 30 wythnos. Ar ddiwedd pob wythnos astudio, mae cyfres ffurfiannol o weithgareddau. Mae Aseiniad Diwedd Modiwl mwy terfynol ar y diwedd.

Mae gan fyfyrwyr Ddarlithydd Cyswllt sy'n marcio ac yn rhoi adborth ar yr holl Aseiniadau a Gaiff eu Marcio gan Diwtoriaid, sydd wedi'u cynllunio i roi cymorth parhaus ac i feithrin sgiliau'r dysgwyr. Gall y Darlithydd Cyswllt hefyd gyfeirio myfyrwyr, neu gallant hunangyfeirio, i'r Tîm Cymorth Myfyrwyr i gael cymorth bugeiliol.

- Strwythurol

Gallai gwerthuso a yw cyllid ar gyfer darpariaeth ran-amser a gyda'r nos yn cael ei gefnogi'n deg ar draws cyrsiau Mynediad ynghyd â llwybrau cymwysterau eraill, alluogi darpariaeth ehangach a chefnogi myfyrwyr sydd mewn angen ariannol cynyddol yn benodol i weithio ac astudio. Gallai hyn hefyd fod yn ddeniadol i ddysgwyr sydd yng nghanol eu gyrfaoedd ac sydd angen ailhyfforddi.

## Darpariaeth wyneb yn wyneb/cyfunol/ar-lein

- Tueddiadol

Mae hyblygrwydd dysgu o bell ar-lein yn galluogi llawer o fyfyrwyr i gydbwyso gwaith, teulu ac astudio. Er mai'r Brifysgol Agored yw prif ddarparwr dysgu ar-lein ledled y DU, mae llawer yng Nghymru yn datblygu darpariaeth fwy hyblyg.

Mae rhai dysgwyr o'r farn bod diffyg cydymdeimlad mewn dysgu ar-lein, ac na roddir digon o sylw i'r gofynion i'r myfyrwyr ymgysylltu mewn darpariaeth ar-lein. Yn y rhan fwyaf o rannau o gymdeithas, ni ellir cymharu gweithio wyneb yn wyneb a gweithio ar-lein mwyach. Mae angen i ddarparwyr cyrsiau Mynediad a Sylfaen gynnig profiad digidol i baratoi dysgwyr ar gyfer deunyddiau a ddarperir ar-lein ar gyfer dysgu uwch. Yn yr un modd, mae profiad a

chyfleusterau ar y campws yn bwysig i fyfyrwyr. Mae'r darparwr ar-lein yn mynd â'r dysgwyr ar y campws ar ddechrau'r cwrs, fel eu bod yn deall bod llyfrgell ac adnoddau eraill ar gael iddynt eu defnyddio. Mae darparwr wyneb yn wyneb arall yn cynnig cymorth sgiliau astudio 24/7 dros y ffôn (gwasanaeth sy'n cael ei gyrchu o'r tu allan i'r sefydliad).

Caiff yr angen am gyfarpar priodol ar gyfer dysgu ar-lein (gliniadur a chyflymder WiFi rhesymol) yn cael ei hysbysebu ar wybodaeth am gyrsiau, fodd bynnag, gall dysgwyr golli'r arweiniad hwn. Mae llawer o ddysgwyr yn cael mynediad i astudiaethau ar ffôn symudol, er na allant ysgrifennu aseiniadau ar y ffôn.

Mae dysgwyr ar bob cwrs yn defnyddio grwpiau WhatsApp i gael cymorth, fodd bynnag, mae defnyddio ffonau symudol ar gyfer astudiaethau academaidd yn gofyn am set wahanol o sgiliau digidol, y mae'n rhaid i ddysgwyr gael cymorth i'w meithrin.

Mae tlodi digidol yn rhwystr sylweddol i ddysgwyr yng Nghymru o hyd, o ran fforddio cyfarpar priodol a chael cysylltiadau WiFi digon cyflym. Mae gan sefydliadau gynlluniau benthyciadau ar gyfer gliniaduron, a donglau mewn rhai achosion. Fodd bynnag, gall y rhestrau aros fod yn hir ar gyfer y rhain. Pan fydd dysgwyr yn mynd â chyfrifiadur allan o'r sefydliad, nid oes ganddynt yr adnoddau i'w ddefnyddio'n briodol gartref bob amser.

Mae mathau eraill o fantais economaidd-gymdeithasol hefyd yn effeithio ar allu i ymgysylltu â dysgu ar-lein. Mae angen i ddysgwyr gael gofod tawel a bwrdd i roi gliniadur a deunyddiau arno. Mewn rhai teuluoedd, efallai y bydd rhywun yn cysgu ar y soffa yn yr ystafell fyw. Nid oes gan rai dysgwyr le i astudio oni fydd hwn yn cael ei ddarparu ar y campws.

- Sefydliadol

Mae sawl sefydliad yn defnyddio neu'n archwilio darpariaeth ar-lein a chyfunol. Mae hyn yn cynnig hyblygrwydd i'r dysgwyr a all gael eu haddysg o unrhyw leoliad (y gwaith neu'r cartref) ac mae hefyd yn cefnogi mynediad gwell i amrywiaeth o ddeunyddiau dysgu. Ceir astudiaeth achos o dri math o ddarpariaeth Coleg Cambria yma. Mae darparwr arall yn dod â dau grŵp Mynediad gyda'i gilydd ar-lein ar ddydd Mercher.

Darparwyr cyrsiau Mynediad yn hytrach na Sylfaen sy'n tueddu i ddatblygu'r mathau hyn o ddarpariaeth. Yn ogystal â recordio darlithoedd, maent yn darparu recordiadau o diwtorialau sgiliau astudio byr, neu recordiad o sut i gyflawni tasg asesu. Mae darparu recordiad yn galluogi'r myfyrwyr i gael mynediad i'r cyngor sawl gwaith ac ar adeg sy'n addas iddyn nhw. Mae cynnig rhywfaint o ddarpariaeth ar-lein hefyd yn cefnogi dysgwyr i drosglwyddo i ddarpariaeth prifysgol.

Mae sefydliadau sydd wedi datblygu dysgu cyfunol ac ar-lein wedi gwneud hynny gan ddefnyddio:

- Buddsoddi mewn technoleg,
- Buddsoddi mewn hyfforddiant staff,
- Gwerthfawrogi'r hyn y mae ymarferwyr academaidd yn ei wneud.

Yn aml, mae llythrennedd digidol yn rhan o'r cwricwlwm. Fodd bynnag, disgrifiodd un dysgwr ei fod wedi bod yn eistedd ar-lein am gyfnod hir wrth i diwtoriaid o bell geisio rhoi cyngor i ddysgwr arall a oedd yn cael trafferth gosod gliniadur. Efallai y bydd angen i ddysgwyr gael cymorth i ddysgu wyneb yn wyneb i ddechrau, er mwyn meithrin y sgiliau digidol ar gyfer dysgu ar-lein.

Mae Butcher a Curry (2022) yn disgrifio sut mae modiwlau Mynediad Y Brifysgol Agored yn dechrau gyda deunydd cwrs wedi'i argraffu, ac mai dim ond yn y ddau floc olaf y caiff astudiaethau ar-lein eu cyflwyno. Mae hyn yn galluogi'r dysgwyr i ymgyfarwyddo â dysgu ar-lein: bydd ganddynt amser i nodi'r cyfarpar a/neu'r sgiliau digidol sydd eu hangen arnynt. (Mae'r Brifysgol Agored yn darparu deunydd wedi'i rwymo â chrib a deunydd wedi'i argraffu yn lle deunydd ar-lein ar gyfer myfyrwyr sydd ag anghenion hygyrchedd, a Myfyrwyr mewn Amgylchedd Diogel.)

Mae rhywfaint o waith Diploma Agored Cymru yn ymarferol ac ni ellir ei wneud ar-lein. Mae cymwysterau dysgwyr Gwyddoniaeth yn galw am brofiad ymarferol mewn rhai sgiliau.

Mae un neu ddau sefydliad wedi'u lleoli mewn ardaloedd â lefelau band eang isel, a bydd diwrnod neu ddau bob mis lle ceir cysylltiad gwael neu ddim cysylltiad yn y sefydliad ei hun.

- Strwythurol

Mae cyllid y Llywodraeth yn cefnogi'r dysgwyr i brynu gliniadur, ond dywedodd y cyfranogwyr wrthym fod y dysgwyr yn aml yn prynu un rhad na fydd yn para drwy gydol eu hastudiaethau.

Cyn y pandemig, roedd rhai cyfleusterau llyfrgell yn galluogi myfyrwyr a oedd wedi cofrestru i gael mynediad breintiedig i gyfleusterau cyfrifiadurol. Fodd bynnag, mae Butcher a Curry (2022) yn rhybuddio nad yw llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol yn hygyrch i ddysgwyr sydd angen ysgrifennu aseiniadau ar oriau anghymdeithasol.

**Astudiaeth Achos Coleg Penybont: Darpariaeth wyneb yn wyneb a chyfunol**

Cofrestrodd Coleg Penybont ar gyfer Google for Education rai blynyddoedd yn ôl a chyn y pandemig. Rhoddodd hyn fynediad iddynt i gyfres o adnoddau ar-lein, fel Google Classroom, a hefyd Chromebooks i gefnogi addysgu a dysgu.

Yn ystod y pandemig, roeddent yn gallu dibynnu ar y ddarpariaeth bresennol hon, a gwella sgiliau staff mewn darpariaeth ar-lein. Cafodd y tîm addysgu bedwar diwrnod o hyfforddiant dwys ac maent wedi cael cefnogaeth barhaus gyda'r hyfforddiant ers hynny. Mae rhai aelodau o'r staff yn cael hyfforddiant pellach, ac yn rhaeadru'r wybodaeth i gydweithwyr. (Er enghraifft, mae rhai aelodau o'r staff yn defnyddio Loom i recordio cyflwyniadau ar gyfer addysgu.)

Cafodd rhai dysgwyr brofiad drwy'r pandemig a'r cyfyngiadau symud hefyd. Fodd bynnag, ar ôl y pandemig, gwelodd y coleg bod angen i'r dysgwyr gael sesiynau wyneb yn wyneb er mwyn archwilio cysyniadau academaidd. Mae'r coleg yn cynnig dewis rhwng darpariaeth wyneb yn wyneb a chyfunol, gan addasu'r rhannau gorau o addysgu ar-lein a ddarparwyd yn ystod y pandemig.

**Astudiaeth Achos Coleg Cambria**

Mae Coleg Cambria yn cynnig tri dull astudio:

- Wyneb yn wyneb: 16 awr ar y safle, mewn pedwar diwrnod, 9.30-2.30 o ddydd Llun i ddydd Iau (mae'r amseroedd yn galluogi iddynt fynd â'u plant i'r ysgol a'u casglu).

- Rhaglen gyfunol: 16 awr mewn 1 diwrnod hir ar y safle, 9.30-6.30, ac 8 awr arall o astudiaethau anghydamseredig ar-lein.
- Rhaglen ar-lein: 16 awr mewn 1 diwrnod cydamseredig ar-lein a 10 awr arall o astudiaethau anghydamseredig ar-lein.

Mae'r ddarpariaeth o ddewisiadau amgen mwy hyblyg i ddysgu wynebu yn wyneb wedi arwain at lefelau recriwtio uwch. Dewisodd 67% o'r garfan bresennol o ddysgwyr ddysgu cyfunol.

Mae Coleg Cambria yn defnyddio amrywiaeth o dechnoleg ac Amgylchedd Dysgu Rhithwir penodedig. Mae ystafell fideo yn cefnogi darpariaeth wedi'i hamserlennu o ddarlithoedd ar-lein neu wedi'u recordio. Gall y staff ddewis dulliau cyflwyno o'u dewis: naill ai drwy'r dechnoleg, neu o flaen cefndir, gyda chyflwyniadau sioe sleidiau yn rhedeg ochr yn ochr â'r dechnoleg a ddefnyddir.

Ni fydd darlithoedd fideo yn fwy na 20 munud o hyd er mwyn cynnal diddordeb y dysgwyr, ac yna bydd y myfyrwyr yn gwneud ymarferion. Mae'r dechnoleg yn monitro'r myfyrwyr sy'n cael mynediad i'r darlithoedd a'u gwylio, sy'n galluogi'r staff i fonitro'r cyfranogiad.

Mae Coleg Cambria'n ceisio bod yn rhagweithiol, gan ddefnyddio nosweithiau i ymgeiswyr i gwrdd â dysgwyr sydd wedi cofrestru i astudio a sicrhau eu bod yn barod. Mae Coleg Cambria yn defnyddio'r sesiynau hyn i sicrhau bod gan y dysgwyr:

- Ryngrwyd gartref;
- Cyfarpar;
- A fydd cyflogwyr yn helpu'r dysgwyr i fynd ar y campws os bydd eu dull astudio yn galw am hynny.

## Iechyd meddwl ac anableddau eraill

- Tueddiadol

Mae iechyd meddwl wedi'i nodi'n eang gan ddysgwyr a darparwyr fel problem fawr a chynyddol i ddysgwyr Mynediad a Sylfaen. Roedd y broblem yn bodoli cyn y pandemig, er bod darparwyr o'r farn ei bod wedi gwaethygu oherwydd amodau'r pandemig a'r cyfyngiadau symud.

Gall dylanwadau yn yr ysgol, y cartref a'r teulu olygu nad oes gan fyfyrwyr hyder na hunanwerth. Gwyddys bod rhai myfyrwyr Sylfaen yn dianc rhag problemau fel caethiwed, digartrefedd, cam-drin domestig a cham-drin rhywiol yn ystod plentyndod. Ystyrir bod problemau iechyd meddwl ar gyfer dysgwyr hefyd yn cynyddu oherwydd ffactorau fel pryderon ariannol ac oriau gwaith hir.

Weithiau, mae cyrsiau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddeniadol i fyfyrwyr oherwydd eu profiadau eu hunain - mae hyn yn ffactor ysgogi ac yn rhwystr i astudio ar gyfer y llwybr gyrfa hwn.

Ynghyd â phroblemau iechyd meddwl, mae gan lawer o ddysgwyr anableddau dysgu nad oeddent wedi cael cefnogaeth ar eu cyfer yn yr ysgol. Gallant gael eu galluogi i gael cymorth am y tro cyntaf ar lefel Mynediad neu Sylfaen.

- Sefydliadol

Mae sefydliadau'n cynnig amrywiaeth o gymorth llesiant ac anabledd. Gall y broses o wneud cais am gymorth a'i roi ar waith, ac o ymgyfarwyddo â'r cymorth sydd ar gael, fod yn ddefnyddiol – yn enwedig i fyfyrwyr Sylfaen a fydd yn parhau i astudio yn yr un sefydliad.

- Strwythurol

Mae cyllid ychwanegol ar gael i gefnogi gwaith llesiant mewn sefydliadau AB ac AU. Gall myfyrwyr gael mynediad i Lwfans Myfyrwyr Anabl, er mwyn cwmpasu cymorth technegol a phersonol. Gall y broses Lwfans Myfyrwyr Anabl fod yn araf: mae aros i'r cymorth angenrheidiol gael ei ariannu yn dal myfyrwyr yn ôl ar y cam cynnar hwn rhag cyflawni a datblygu.

Gan fod y Cynllun Dysgu Personol bellach yn dilyn myfyrwyr hyd at yr adeg pan fyddant yn 25 oed, gall darparwyr Mynediad gwrdd â'r myfyriwr yn gynharach er mwyn trefnu cymorth.

## Rhywedd, teulu a rhianta

- Tueddiadol

Mae'r data meintiol a gasglwyd yn ychwanegol yn y prosiect yn dangos mai menywod sy'n cael hyfforddiant Mynediad yn bennaf, a bod y rhan fwyaf ohonynt ar gyrsiau gofal iechyd. Dim ond nifer bach o ddysgwyr y gwnaethom lwyddo i'w cyfweld, fodd bynnag, i'r gwrthwyneb, roedd yn nodedig bod y rhan

fwyaf o'r dysgwyr gwrywaidd y gwnaethom siarad â nhw mewn addysg Celfyddydau a'r Dyniaethau, a gall fod yn werth ymchwilio ymhellach i hyn.

Awgrymodd y darparwyr bod gan fenywod swyddi â chyflog is a sgiliau is yn aml, fel cynorthwyydd gofal mewn cartref nyrsio, a'u bod am gymhwyso fel nyrsys. Neu efallai eu bod gartref yn gofalu am blant, a'u bod wedi colli eu hyder – ac yn pryderu bod y farchnad lafur wedi symud ymlaen a'u gadael ar ôl. Ystyriwyd bod mamau sengl yn wynebu risg uwch o deimlo'n ynysig ac o golli hyder, am nad ydynt wedi gadael y tŷ ers tro.

Yn aml, caiff dysgwyr foment "dyma fy amser i" (Elmi-Glennan, 2013), fel arfer pan fydd eu plant o oedran ysgol. Mewn rhai achosion, byddant yn cofrestru ar gyrsiau Mynediad ar ôl gwahanu neu ysgaru. Gallai ymgymryd ag astudiaethau arwain at newidiadau mewn hyder, gydag annibyniaeth ariannol oherwydd grant neu fenthyciad. Weithiau bydd menywod yn symud allan o berthnasau yn ystod eu hastudiaethau. Mae menywod dosbarth gweithiol yn cael problemau penodol gyda newid mewn hunaniaeth a thensiynau wrth iddynt drawsnewid eu hunain a'u bywydau drwy astudio a'u dyhead i wella eu teuluoedd ynghyd â'u hunain (Bassett, 2022).

Mae rhieni a phlant hŷn hefyd yn gefnogwyr ac yn hyrwyddwyr pwysig i ddysgwyr Mynediad. Gallai plant hŷn ofalu am frodyr a chwiorydd iau er mwyn galluogi rhiant i ganolbwyntio ar ei astudiaethau.

Er bod materion gofal plant yn rhwystr sylweddol i ddysgwyr benywaidd a rhai dysgwyr gwrywaidd, mae dysgwyr hefyd yn awyddus i ddatblygu yn eu gyrfa er mwyn gwella siawns eu holl deulu nid dim ond eu siawns nhw. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod gweld eu rhieni yn astudio yn annog plant i ymgysylltu'n well â'u gwaith ysgol.

- Sefydliadol

Soniodd nifer o sefydliadau eu bod am gynnig cyfleusterau crèche er mwyn cefnogi staff a myfyrwyr. Cyfeiriodd un at fyfyrwyr gofal plant yn y sefydliad a allai ddarparu hyn fel rhan o'u hyfforddiant – gyda goruchwyliaeth briodol.

"Fel arfer gellir galluogi un diwrnod anghyfleus bob wythnos ond dim mwy na hynny."

Mae sawl sefydliad yn amserlennu dosbarthiadau i gyd-fynd ag amseroedd mynd â phlant i'r ysgol a'u casglu. Gyda myfyrwyr sy'n rhieni, mae hefyd yn bwysig ystyried gwyliau hanner tymor a gwyliau ysgol. Mae rhai sefydliadau hefyd yn ceisio trefnu darpariaeth fel na chaiff dysgwyr y mae eu plant yn dechrau'r ysgol ym mis Medi eu llethu. Maent yn cynnig derbyn dysgwyr ym mis Ionawr, neu ar gwrs cyn Mynediad ym mis Mehefin, er mwyn helpu dysgwyr i setlo cyn dyddiad dechrau'r ysgol.

Mae cynlluniau i annog dynion i mewn i broffesiynau gofalu ynghyd ag annog menywod i faes peirianneg. Mae staff addysgu yn canolbwyntio ar gefnogi mamau sengl fel y dysgwyr sydd mewn angen yn union o'u blaenau. Mae stori ehangach yma am gyfle cyfartal a gwahaniaethau mewn cyflog rhwng y rhywiau. Gellir gwneud rhagor o waith i ystyried rhywedd a'r ddarpariaeth dysgu gofal iechyd Mynediad/Sylfaen.

- Strwythurol

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn datgan bod yn rhaid gweithio gydag undebau llafur yng Nghymru. Mae TUC Cymru ac undebau llafur wedi datblygu hyfforddiant ac adnoddau i gefnogi gwaith cydraddoldeb. Gall fod adnoddau gwerthfawr ar gael gan y sefydliadau hyn a allai helpu sefydliadau i gefnogi menywod (a grwpiau eraill lleiafrifedig) mewn darpariaeth Mynediad.

Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi cynllun brecwast am ddim yn yr ysgol er nad yw'n ymddangos bod y dysgwyr yn defnyddio hyn. Esboniodd un darparwr fod teithio drwy draffig cyfnodau prysur (mewn ardal lle ceir llawer o oedi oherwydd gwaith ffordd) yn golygu bod dysgwyr yn gorfod dewis rhwng gadael yn rhy gynnar ar gyfer y clwb brecwast ar daith hir, neu'n rhy hwyr ar daith fyrrach i'r coleg ar ôl mynd â'r plant i'r ysgol.

## Oedran

- Tueddiadol

Er bod y rhan fwyaf o'r myfyrwyr sy'n astudio ar gwrs Mynediad dros 25 oed, mae'r rhan fwyaf o'r myfyrwyr sy'n astudio cwrs Sylfaen yn 24 oed ac iau. Canfuwyd bod anghenion dysgwyr iau a dysgwyr hŷn yn wahanol gan

ddarparwyr. Gallai fod tensiynau ar gyfer dysgwyr hŷn mewn grŵp sy'n iau yn bennaf.

Roedd dysgwyr hŷn yn fwy tebygol o fod am gael darpariaeth wyneb yn wyneb. Ystyriwyd bod yn well gan "ddysgwyr hŷn canolig" sydd â theuluoedd iau, sydd hefyd yn gweithio, ddarpariaeth gyfunol.

Gall myfyrwyr mynediad fynd yn syth i'r Brifysgol, felly mae rhai dysgwyr yn ceisio cyrraedd Addysg Uwch drwy'r llwybr hwn naill ai am nad oedd eu canlyniadau Safon uwch yn ddigon, neu er mwyn osgoi'r arholiadau trymach ar lwybrau eraill.

Mae myfyrwyr Mynediad yn mynd yn iau, ond nid ystyrir bod myfyrwyr Sylfaen yn mynd yn hŷn.

- Sefydliadol

Nid oes cyllid ar gyfer ffioedd i gwmpasu myfyrwyr dan 19 oed, er, yn dechnegol, gall pobl ifanc 18 oed astudio cwrs Mynediad a llithro drwy'r rhwyd weithiau - cael eu haddysgu heb i'r sefydliad gael ffi lawn, ynghyd â chyfoedion sydd â Chyfrif Dysgu Personol. Bydd un sefydliad yn cynghori pobl ifanc 18 oed i gael profiad gwaith yn y maes maent am astudio ynddo, ac yna dod yn ôl i astudio cwrs Mynediad.

Weithiau, bydd dysgwyr Mynediad, sy'n tueddu i fod yn hŷn, yn gofyn i'r sefydliad am ofod cymdeithasol ar wahân i'r myfyrwyr iau sy'n gwneud cymwysterau eraill. Lle y darparwyd hyn, roedd yn cael ei ddefnyddio'n dda ac roedd yn cynnig ymdeimlad o hunaniaeth a chymuned. Mewn un coleg, roedd y staff wedi aberthu eu hystafell desgiau poeth i roi pum desg i'r myfyrwyr. Fodd bynnag, roedd angen cyfleusterau cegin sylfaenol ar y dysgwyr. Roedd tegell a microdon ar gael i garfan debyg ar gampws arall, lle roedd y lefelau cadw dysgwyr yn uwch.

> "Yr adborth a gefais ganddynt yw nad ydynt yn teimlo bod ganddynt hunaniaeth."

Mae cyfleusterau parcio ceir da hefyd yn hanfodol ar gyfer myfyrwyr Mynediad, lle mae'r cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus yn wael.

I'r gwrthwyneb, nid oedd gan fyfyrwyr Sylfaen ddiddordeb mewn cael cyfleusterau ar wahân. Roedd llawer yn byw ar y campws gyda myfyrwyr eraill. Roeddent yn mwynhau defnyddio'r un cyfleusterau a bod yn rhan o fywyd y brifysgol.

- Strwythurol

Mae angen i ddysgwyr hŷn sy'n dychwelyd i gyrsiau Mynediad a Sylfaen ar ôl cael teulu neu sydd am newid gyrfa gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ynghylch y ddarpariaeth dysgu fwyaf priodol a'r cymorth ariannol y gallent ei gael ar lwybrau addysg penodol.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg

- Tueddiadol

Mae angen rhagor o ymchwil i archwilio anghenion dysgwyr Mynediad a Sylfaen y mae'r Gymraeg yn famiaith iddynt.

- Sefydliadol

Gweler gwybodaeth fapio ar gyfer sefydliadau sy'n cefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- Strwythurol

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu Prif Grant ar gyfer myfyrwyr sy'n dysgu yn Gymraeg.

## Lle a gofod

- Tueddiadol

I rai dysgwyr, roedd yn bwysig bod darparwyr yn dod allan atynt, i "ofod diogel" fel ysgol neu ganolfan gymuned leol. Roedd prifysgolion yn llefydd lle'r oedd dysgwyr yn cael eu gwahodd i mewn, ond gallant deimlo eu bod wedi cael eu "gadael". Roedd rhai darparwyr yn gwybod am ofodau cymunedol rhad neu am ddim a oedd yn tueddu i gynnig darpariaeth leol.

I eraill, roedd y campws yn "noddfa ddiogel" – gall fod ceiswyr lloches yn byw mewn amgylchedd gelyniaethus ac yn croesawu cael dod i adeiladau'r campws.

Mae coleg sydd wedi'i leoli mewn ardal ddifreintiedig yn denu dysgwyr lleol ac yn cynnig cymorth sefydliadol yn fwy cyffredinol i'r ardal. Cadarnhaodd dysgwyr a darparwyr fod myfyrwyr Mynediad yn tueddu i ddewis darparwr coleg lleol – myfyrwyr gofal iechyd yn benodol; mae'r carfanau Mynediad Gwyddoniaeth a Dyniaethau iau yn fwy parod i deithio.

Gall darpariaeth 'leol' fod yn llai hygyrch oherwydd problemau trafnidiaeth. Gall traffig adegau prysur olygu bod myfyrwyr yn cofrestru ar gyfer sefydliad yn bellach i ffwrdd yn hytrach na gorfod croesi'r dref i fynd i ddarparwr agosach. Mae rhai dysgwyr yn cael trafferth cyrraedd y campws oherwydd costau teithio'n bell mewn ardaloedd gwledig. Bydd un neu ddau sefydliad yn cynnig trafnidiaeth i'r coleg os gall digon o ddysgwyr ei ddefnyddio.

Daw myfyrwyr Sylfaen o ardaloedd pellach i ffwrdd (gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol – sydd weithiau'n cael eu cyfeirio at ddarpariaeth Sylfaen os na fydd eu cymwysterau cenedlaethol yn cyfateb i ofynion y DU).

Roedd myfyrwyr sylfaen yn aml yn byw ar y campws, yn union fel myfyrwyr eraill. Roedd bod ar y campws weithiau'n arwain at bresenoldeb gwell, gan nad oedd angen iddynt deithio i gyrraedd darlithoedd a chyfleusterau'r brifysgol.

Gall darpariaeth ar-lein gefnogi prosesau recriwtio o ardaloedd ehangach, ond gall cyflymder band eang gwael beryglu hyn.

- Sefydliadol

Gallai darpariaeth mewn ardaloedd adeiledig fod yn orlawn ac yn ei chael hi'n anodd amserlennu gofod i ateb y galw. Mae angen i ddysgwyr Mynediad a Sylfaen gael dosbarthiadau llai o faint er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth wedi'i bersonoli, er y gallai hyn weithiau olygu nad oeddent yn cael eu paratoi'n llawn ar gyfer y niferoedd mawr mewn darlithoedd ar lefel gradd.

- Strwythurol

Nid dim ond dysgwyr Mynediad a Sylfaen sydd angen cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus da a ffyrdd clir, ond roedd yn amlwg bod problemau yn hyn o beth yn rhwystrau sylweddol wrth gael gafael ar addysg, yn enwedig gyda chostau cynyddol tanwydd.

## 'Llwyddiant’

Pan ofynnwyd ‘beth ydych chi am ei wybod’ o'r ymchwil, roedd rhanddeiliaid y prosiect yn awyddus i ddysgu am ‘lwyddiant’. Roeddent am gael gwybod mwy na dim ond pa mor llwyddiannus oedd eu darpariaeth yn cefnogi myfyrwyr drwodd i Addysg Uwch. Roeddent am wybod beth oedd ystyr ‘llwyddiant’ i'r myfyrwyr. A yw rhai myfyrwyr yn magu hyder drwy fynd ar raglen astudio Mynediad neu Sylfaen, ac yna'n penderfynu astudio cymhwyster amgen neu fynd i mewn i gyflogaeth yn hytrach nag Addysg Uwch?

Nid oedd hyn yn y cylch gwaith ar gyfer y prosiect hwn, fodd bynnag, byddai gwaith pellach am hyn yn cefnogi'r broses o gynnwys ‘llais y dysgwr’ a rhagor o gydweithio ar draws y sector trydyddol.

- Tueddiadol

Roedd dysgwyr a darparwyr yn gweld bod myfyrwyr Mynediad a Sylfaen yn gwneud yn well wrth iddynt symud i fyny i astudiaethau gradd.

“Roeddwn yn meddwl y byddwn i'n cael fy llethu yn y brifysgol, ond i'r gwrthwyneb. Mewn ffordd gadarnhaol.”

“Wyddoch chi'r teimlad o fod yn drefnus, pan fydd gennych eich amserlen, ac agwedd a disgyblaeth i wneud y gwaith y mae angen ei wneud yn hytrach na'i adael tan y funud olaf.”

Roedd yn rhaid i rai myfyrwyr anelu'n uchel er mwyn sicrhau y byddent yn gallu cyrraedd y graddau a bennir gan sefydliadau. Fodd bynnag, gallai'r graddau ostwng yn ystod y broses glirio. Mae hyn yn creu pwysau ychwanegol sy'n ddiangen efallai gan na all staff addysgu awgrymu y gallent ddod drwyddi heb anelu mor uchel. Fodd bynnag, mae adborth gan y prifysgolion yn awgrymu bod hyn yn eu helpu i reoli eu blwyddyn astudio gyntaf yn well.

- Sefydliadol

Roedd y darparwyr yn eithriadol o falch o'r dysgwyr, ac roeddent yn disgrifio eu bod yn fwy galluog, ymroddedig a gweithgar er mwyn parhau i ymgysylltu â'u hastudiaethau. Mae monitro data yn ogystal â chanfyddiadau dysgwyr yn dangos bod myfyrwyr Mynediad a Sylfaen yn gwneud yn well. Er bod sefydliadau'n gweld bod rhai myfyrwyr yn ffynnu mewn cyrsiau Mynediad ond

yna'n ei chael hi'n anodd yn y brifysgol, nid oeddent yn meddwl bod llawer nad oeddent yn mynd ymlaen i'r brifysgol ar ôl gwneud cwrs Mynediad.

Roedd rhai staff yn pryderu ynghylch cymorth parhaus – bod dysgwyr Mynediad a Sylfaen yn mynd i sefydliadau lle'r oedd yr iaith/y derminoleg yn wahanol ac yn ddryslyd ac nad oedd yn glir beth oedd ei angen i ddatblygu. (Er bod y dystiolaeth yn awgrymu bod dysgwyr yn llwyddo'n dda wrth iddynt barhau).

Roedd darparwyr cyrsiau Sylfaen o'r farn y gallai rhai dysgwyr fod wedi mynd yn syth i mewn i'w blwyddyn gyntaf a gwneud yn dda, fodd bynnag, roedd ganddynt adborth cadarnhaol gan fyfyrwyr hŷn bod y flwyddyn Sylfaen wedi rhoi sicrwydd a chymorth iddynt wrth ddysgu sut i reoli eu hamser a meithrin sgiliau academaidd.

Cafodd un coleg AB ymateb eithriadol pan ofynnwyd i gyn-fyfyrwyr ddod i siarad â'u carfan bresennol. Cawsant fyfyrwyr o bob blwyddyn astudio a'r rhai a oedd wedi mynd ymlaen i weithio yn y proffesiwn, 10 neu 20 mlynedd ar ôl gwneud cais Mynediad weithiau.

> "Gall gymryd amser, cymaint ag 8 mlynedd weithiau. Bydd myfyrwyr yn dod i ddosbarth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill, yna'n symud ymlaen i gymhwyster nyrsio. Maen nhw'n dal ati. Maen nhw'n cael yr ymdeimlad hwnnw o berthyn."

- Strwythurol

Mae'r canfyddiadau hyn yn cyd-fynd ag ymchwil ar fyfyrwyr Mynediad yn Y Brifysgol Agored, yn y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (Butcher a Clarke, 2021; Butcher et al, 2019). Canfu'r astudiaethau hyn fod sgiliau astudio a sgiliau rheoli amser wedi gwella, ynghyd â hyder y myfyrwyr mewn perthynas â mathemateg yn benodol. Roedd y modiwl Celfyddydau a Dyniaethau yn gallu cefnogi'r myfyrwyr i feddwl yn feirniadol ac i drafod, gan eu hannog i fod yn feddwl agored ac yn greadigol – yr oedd y myfyrwyr yn ei fwynhau ac yn ei werthfawrogi yn eu bywydau yn wahanol i'r hyn roedd yr awduron yn ei feirniadu fel paradeim 'gwerth economaidd' mewn addysg uwch.

Ar hyn o bryd, nid yw myfyrwyr Mynediad nad ydynt yn cwblhau'r cwrs yn cael unrhyw gydnabyddiaeth am eu gwaith, hyd yn oed os byddant wedi gwneud y rhan fwyaf o'r cwrs. Byddai darparwyr yn hoffi gweld rhyw fath o Dystysgrif neu gredyd llai yn cael ei ddarparu am gystadleuaeth rannol. Gallai'r mater hwn gael ei helpu gan ddarpariaeth ran-amser well.

Wrth drefn i gynfyfyrwyr ddod i mewn i'r coleg, mae sefydliadau'n cydnabod pwysigrwydd dangos esiampl i ddysgwyr sy'n oedolion. Mae Gyrfa Cymru yn cydnabod bod lefelau ymwybyddiaeth isel ynghylch eu cymorth, a'r ddarpariaeth i ddysgwyr sy'n oedolion yn gyffredinol. Mae cyfle am ymgyrch fwy i godi ymwybyddiaeth – yn enwedig os gall hyn gyfeirio dysgwyr i adnoddau a chymorth posibl. Mae partneriaeth sefydliadol yn credu y gallai cynnal tair astudiaeth achos yr un efallai o ddysgwyr yn eu sefydliadau fod yn ddull effeithiol a chost isel o godi ymwybyddiaeth o astudiaethau Mynediad a Sylfaen.

> "Mae angen ei weld er mwyn ei roi ar waith."

## 9. Cydweithredu a chystadleuaeth

(Sefydliadau ac asiantaethau ar draws y sector trydyddol.)

Er bod sefydliadau'n cystadlu am ddysgwyr (a'u ffioedd) ar yr olwg gyntaf, gwelwyd yn ystod trafodaethau gweithdai bod llawer o staff ar draws darparwyr gwahanol yn adnabod ei gilydd a bod gan lawer o sefydliadau rwydweithiau cydweithio ffurfiol neu anffurfiol. Mae Agored Cymru yn cynnal cynadleddau fel y *Gynhadledd Mynediad i Addysg Uwch* yn Llandrindod (mis Mehefin 2023), a chyfarfod rheolaidd ar gyfer darparwyr gofal iechyd (nid oedd darparwyr yn siŵr pam mai dim ond staff gofal iechyd oedd yn cael y cyfleuster hwn). Nid oedd staff addysgu yn cydymdeimlo â safbwynt busnes o addysg drydyddol, yn enwedig mewn perthynas â'u gwaith eu hunain i ehangu cyfranogiad. Gwnaethant nodi mai addysgwyr ydynt, nid busnes. Roeddent o'r farn mai cynnig opsiynau gwahanol oedd darpariaeth amgen, nid cystadleuaeth, er enghraifft roedd darparwyr graddau nyrsio rhan-amser ond yn ystyried mai addas i fath gwahanol o ddysgwr oedd y ddarpariaeth amser llawn mewn sefydliad arall.

Un enghraifft o gydweithio sydd o fudd i'r ddwy ochr yw rhwng Grŵp Llandrillo Menai a Phrifysgol Bangor, lle mae staff Grŵp Llandrillo Menai yn cyflawni dysgu Mynediad ym Mhrifysgol Bangor. Roedd hyn yn enghraifft bwysig o gydweithio da er mwyn cefnogi darpariaeth dysgu gorau, mewn amgylchedd llawn pryder am gystadleuaeth: Mae colegau AB yn pryderu y gallai sefydliadau AU atgynhyrchu darpariaeth Mynediad mewn cyrsiau Sylfaen dim ond er mwyn cael y ffioedd ychwanegol. Mae Addysg Oedolion Cymru hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau AU ac AB eraill, ac yn gweithio gyda'r TUC i ddarparu dysgu yn y gwaith.

Ar yr un pryd, roedd y staff yn ymwybodol o achosion lle gallai datblygu cyrsiau newydd dynnu oddi wrth ddarparwyr sefydledig eraill. Roedd un darparwr wedi gweld darpariaeth cwrs yn haneru am fod y dysgwyr yn ei gweld hi'n haws teithio i ddarparwr arall gerllaw, a oedd yn cael ei alluog i ddatblygu darpariaeth cwrs ehangach. Roedd darpariaeth mathemateg a gwyddoniaeth wedi'i chwtogi o ganlyniad i hynny. Roeddent yn gallu cynnig darpariaeth ehangach na choleg ar eu hochr arall a denu dysgwyr o ardal fwy prin ei phoblogaeth. Nid oedd dysgwyr o anghenraid yn cael eu gwasanaethu'n dda gan ddarpariaeth cwrs a oedd yn cael ei datblygu er mwyn dilyn niferoedd.

Weithiau roedd darparwyr cyrsiau Mynediad yn meithrin cydberthnasau da fel colegau bwydo i ddarparwyr gradd AU, sy'n addas ar gyfer eu dysgwyr. Teimlwyd bod prifysgolion yn cydnabod cyrsiau Mynediad yn well ers y pandemig. Roedd un sefydliad hyd yn oed yn llwyddo i gael cynigion ar gyfer ei fyfyrwyr ar gyrsiau Meddygaeth a rhaglenni gradd tebyg o statws uchel. Roedd cydnabyddiaeth dda o'r dysgu y mae cyrsiau Mynediad yn ei gefnogi. Lle roedd elfen rhifedd wedi'i chydnabod, gellid gollwng y gofyniad i gael TGAU Mathemateg. Gallai'r staff gysylltu'n bersonol â phrifysgolion i sicrhau bod potensial dysgwyr unigol yn cael ei gydnabod yn briodol.

Mae un brifysgol leol yn cynnig cyfweliad ffug i ddysgwyr y maent yn ystyried cynnig lle iddynt. Cafodd hyn ei ganmol gan ddarparwr y cwrs Mynediad am ei fod yn helpu dysgwyr difreintiedig sy'n brin o hyder i ymgyfarwyddo â'r broses gyfweld. Roedd sefydliadau a allai warantu cyfweliad i fyfyrwyr Mynediad, ac roedd un sefydliad yn rhoi cynigion cyd-destunol i fyfyrwyr o ardaloedd â chodau post a oedd yn awgrymu ardaloedd o amddifadedd.

Nid yw Agored Cymru heb ei gystadleuwyr yng Nghymru, fodd bynnag, mae'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddysgu ar gwrs Mynediad yma. Mae'r teyrngarwch a ddangosir iddo gan sefydliadau yn helpu i'w alluogi i ddatblygu adnoddau dysgu o ansawdd, a chynnig cymorth seilwaith ychwanegol fel digwyddiadau lle gall staff AB ddod ynghyd.

**Astudiaeth achos Prifysgol Bangor / Grŵp Llandrillo Menai**

Mae Prifysgol Bangor, ar y cyd â Grŵp Llandrillo Menai, wedi sefydlu partneriaeth arloesol sydd â'r nod o wella hygyrchedd addysg uwch i ddysgwyr amrywiol. Mae'r cydweithrediad hwn yn canolbwyntio ar raglen Blwyddyn 0 Sylfaen sydd wedi'i chynllunio i rymuso myfyrwyr nad ydynt yn bodloni gofynion mynediad traddodiadol efallai ond sy'n awyddus i ddilyn llwybrau gwyddoniaeth. Mae'r rhaglen yn cysylltu â graddau mewn pedair ysgol academaidd ym Mangor.

Mae darlithwyr Grŵp Llandrillo Menai yn cyfrannu 80 o gredydau at Flwyddyn 0 Sylfaen Prifysgol Bangor. Mae'r cydweithrediad yn pwysleisio profiad di-dor i ddysgwyr, gan eu paratoi ar gyfer gradd gwyddoniaeth israddedig pedair blynedd o hyd (gan gynnwys y Flwyddyn Sylfaen) ym Mhrifysgol Bangor.

Cryfderau'r Rhaglen Gydweithredol:

1. Arbenigedd Ategol: Mae'r cydweithrediad yn manteisio ar arbenigedd staff Grŵp Llandrillo Menai i gyflwyno gwybodaeth a sgiliau hanfodol, gan integreiddio'n ddi-dor â rhaglenni israddedig arbenigol Prifysgol Bangor.
2. Cynllun Rhaglen Cryf: Mae cwricwlwm wedi'i strwythuro'n dda yn galluogi'r myfyrwyr i gymhwyso modiwlau meithrin sgiliau i'w harbenigeddau gwyddoniaeth penodol.
3. Integreiddio'n Gynnar â'r Brifysgol: Mae cyflawni Blwyddyn 0 yn y brifysgol yn sicrhau bod y myfyrwyr yn teimlo'n rhan o'r Brifysgol o'r dechrau gan eu helpu i ymgyfarwyddo â bywyd prifysgol, a'u paratoi i lwyddo ar Lefel Pedwar.
4. Ehangu Cyfranogiad: Mae meini prawf mynediad yn cynnwys astudiaeth Lefel 3 nad yw'n cystadlu â dulliau ehangu cyfranogiad AB.

Mae'r fenter gydweithredol hon yn ymgorffori ymrwymiad i addysg gynhwysol, gan bwysleisio rôl hanfodol Addysg Bellach yn paratoi dysgwyr i ddilyn llwybrau llwyddiannus mewn Addysg Uwch. Mae'r bartneriaeth yn dangos ymroddiad y partneriaid i fireinio'r model yn barhaus er budd myfyrwyr a'r gymuned academaidd ehangach.

## Darparwyr eraill

Soniodd cyfweleion am nifer o lwybrau eraill i mewn i AU. Roedd y rhain yn cynnwys cymwysterau fel BTEC, sydd hefyd yn rhoi mynediad i Addysg Uwch er nad yw'r dysgwyr yn sylweddoli hynny efallai.

Prif ddarparwr cymwysterau Mynediad ledled Cymru yw Agored Cymru, ac mae'r Brifysgol Agored hefyd yn cynnig dysgu Mynediad a Sylfaen o bell ar-lein. Soniwyd am Pearl, ond ystyriwyd ei fod yn gostus o gymharu.

Mae'n ymddangos bod cyflogwyr sy'n cynnal eu hyfforddiant eu hunain yn un dewis amgen i addysg sector trydyddol. Credir bod cynghorau ynghyd â chyflogwyr masnachol yn defnyddio Lwfans Dysgu Personol dysgwyr i ariannu cyrsiau mewnol. Canfu un darparwr a arferai weld dysgwyr yn dod ato o fyrddau iechyd lleol eu bod wedi dechrau cynnal hyfforddiant yn fewnol. Bydd rhai cyflogwyr yn derbyn tystysgrifau corfforaethol, fel bathodynnau Microsoft, yn hytrach na chymwysterau a achredir gan golegau. Gall y rhain fod yn fwy addas ar gyfer anghenion penodol y cwmni (paradeim 'gwerth economaidd' -

Butcher a Clarke, 2021), ond nid yw'n amlwg a fyddant yn cynnig dysgu a chymwysterau ehangach i'r dysgwyr, i'w galluogi i symud ar draws y dirwedd cyflogaeth.

## Darpar bartneriaid a rhanddeiliaid eraill

Nid oedd yn ymddangos bod gan staff addysgu gysylltiadau da â chyflogwyr yn yr ardal leol gan gynnwys busnesau a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus, er y gall fod cysylltiadau da ar lefel sefydliadol uwch. Soniwyd bod y ffaith bod cymorth Gyrfa Cymru wedi'i gwtogi, a bod Cynghorwyr Ymgysylltu Busnes bellach yn cael eu hailgyflogi a'u hailhyfforddi, wedi bod yn gamgymeriad.

Mae gan rai prifysgolion gysylltiadau ag ysgolion, naill ai drwy staff sy'n Llywodraethwyr Ysgolion, neu gynlluniau partneriaeth (gweler y Ganolfan Gydlynu Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, 2017). Roedd y rhain yn tueddu i fod yn bartneriaethau ar gyfer staff ymchwil a staff addysgu graddau mewn prifysgolion, er ei bod yn bosibl bod mwy o staff prifysgolion a cholegau yn gwasanaethu fel llywodraethwyr ysgolion yn breifat na'r hyn y mae sefydliadau'n ei sylweddoli. Mae gan Gyrfa Cymru gysylltiad cryf â chynghorydd ym mhob ysgol uwchradd, ac mae'n gweithio gyda rhai rhieni ar ran y disgyblion y mae'n eu cefnogi.

# 10. Methodoleg

## Partneriaid prosiect – dull cydweithredol

### Ymchwil weithredu

Dull datrys problemau democrataidd ar y cyd yw ymchwil weithredu sy'n ceisio trawsnewid ymarfer yn hytrach na dim ond ei ddisgrifio (Cohen et al, 2018, t.440).

Comisiynwyd y prosiect yn fuan ar ôl sefydlu Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), 2022, felly i mewn i amgylchedd polisi sy'n hyrwyddo cydweithrediad rhwng darparwyr y sector trydyddol. Yn hytrach nag ymgymryd â phrosiect disgrifiadol lle'r oedd y tîm ymchwil yn casglu safbwyntiau cyfranogwyr i'w hadrodd yn ôl, cytunodd y grŵp llywio i ddefnyddio'r cyfle ac i fynd ati i sefydlu'r rhwydwaith cydweithredol rhwng sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Gwahoddwyd staff mewn prosiectau a ariennir o sefydliadau partner i ddod i weithdai grwpiau ffocws wyneb yn wyneb mewn grwpiau a ddewiswyd yn ddaearyddol: Gogledd Cymru, De-orllewin Cymru a phrifddinas-ranbarth Caerdydd, lle gallent rwydweithio ag addysgwyr eraill a rhannu arferion da yn ogystal â rhannu syniadau.

Gwahoddwyd partneriaid y prosiect a rhai rhanddeiliaid eraill i ddod i ddigwyddiad cyn y confensiwn i drafod drafft gwaith o'r adroddiad a ddosbarthwyd wythnos yn flaenorol. Roedd hyn yn galluogi cydweithredu parhaus a chefnogaeth o bob rhan o'r sector yn y grwpiau daearyddol. Cafwyd rhagor o ddealltwriaeth o ddadansoddiad o'r trawsgrifiadau o drafodaethau grŵp.

Cefnogwyd y prosiect gan grŵp llywio a grŵp sefydliadol, gan gynnwys uwch-gynrychiolwyr o bob sefydliad partner. Cafodd dau Gynrychiolydd Myfyrwyr o'r Brifysgol Agored eu cynnwys yn y grŵp llywio: gan sicrhau bod Llais y Dysgwr yn cael ei glywed yn y broses o lywodraethu'r prosiect. Buom yn ymgynghori'n barhaus ac yn cynllunio'r ymchwil â sefydliadau AB ac AU partner a Chynrychiolwyr Myfyrwyr ac yn ystyried myfyrdodau ar gyfer yr ymchwil.

### Gweithdai grŵp ffocws wyneb yn wyneb â'r staff

Roedd yn eithaf anodd dod â chyfranogwyr ynghyd mewn ffordd a allai feithrin cydweithrediad. Nid oeddem am gynnal cyfweliadau ar-lein a allai gael eu trin fel y cyfarfodydd y mae'r staff wedi arfer â nhw. Am resymau rhesymegol, gwnaethom gytuno y byddai'n well cynnal y digwyddiad cyn Confensiwn y prosiect ar-lein. Arweiniodd hyn at broblemau am fod y cyfranogwyr wedi gorfod dod yn hwyr neu adael yn gynnar oherwydd ymrwymiadau eraill a oedd wedi codi.

Roedd gweithdai wyneb yn wyneb yn cynnig cyfle i ddod â staff AB ac AU ynghyd (buom yn gweithio'n bwrpasol i beidio â gwahanu'r sefydliadau yn ddau sector) am gyfnod o amser. Gallent sgwrsio ymysg ei gilydd a sefydlu rhwydweithiau cydweithredol dros luniaeth. Roedd hyn mor llwyddiannus, pan seiniodd larwm tân mewn un gweithdy, parhaodd y cyfrangowyr i sgwrsio ar y grisiau y tu allan i'r adeilad, gyda'r ymchwilydd yn ceisio cofio gwybodaeth allweddol roeddent yn ei rhannu. Roedd rhai cyfranogwyr yn gweithio yn yr un sefydliad, a dim ond yn adnabod wynebau ac enwau ei gilydd o gyfarfodydd ar-lein: nid oeddent hyd yn oed yn sylweddoli eu bod yn gweithio o fewn yr un ddarpariaeth. Dysgodd y cyfranogwyr fod ganddynt lawer yn gyffredin.

“Mae wedi bod fel sesiwn therapi.”

Cafwyd problemau mewn perthynas â phryderon parhaus ynghylch COVID: gydag ymddiheuriadau hwyr gan gyfranogwyr a oedd wedi cael prawf positif, a'r angen i ystyried cadw pellter cymdeithasol ar gyfer cyfranogwyr a oedd ar y rhestr warchod.

Y brif broblem oedd pellter daearyddol a phrinder amser. Gwnaethom geisio trafod diwrnodau/amseroedd a lleoliadau addas, fodd bynnag, weithiau roedd y staff yn cofrestru cyn sylweddoli bod ymrwymiadau eraill yn golygu na fyddai'n bosibl iddynt fod yn bresennol. Cyfarfodydd ar-lein yw'r norm o hyd ers y pandemig: mae pobl yn ei chael hi'n anodd amserlennu'r teithio ar gyfer digwyddiad wyneb yn wyneb.

Roedd y staff yn awyddus i gyfrannu ac yn aml roeddent yn gofyn am ddewis amgen os na allent fod yn bresennol yn y gweithdy. Gwnaethom lwyddo i gynnal rhai sesiynau ar-lein byrrach, a disgrifiodd y cyfranogwyr eu bod yn cynnig cyfle gwerthfawr i fyfyrio. Gwnaethom hefyd lwyddo i recriwtio

cyfranogwyr o ddau sefydliad nad oeddent yn bartneriaid prosiect a ariennir: sy'n dangos ymrwymiad y staff i nodau'r prosiect hwn.

Gwnaethom ofyn i'r partneriaid am eu hoff leoliad ar gyfer y Confensiwn terfynol. Caerdydd oedd y dewis mwyaf poblogaidd. Gall digwyddiadau yng nghanolbarth Cymru, sydd yr un mor bell i'r holl gyfranogwyr, arwain at gysylltiadau WiFi gwael, sydd hefyd yn rhwystr i rai dysgwyr. Ar gyfer y dyfodol, byddai'n werth ystyried cael cylchrestr o ddigwyddiadau mewn sefydliadau gwahanol: byddai'n ddefnyddiol i'r partneriaid gael gweld cyfleusterau a lleoliadau ei gilydd.

Gallai dadansoddeg rhwydweithio cymdeithasol (gweler y Swyddfa Gartref, 2016) o unigolion a sefydliadau roi trosolwg defnyddiol o'r partneriaethau sydd eisoes yn bodoli rhwng darparwyr y sector trydyddol ac asiantaethau, gan helpu i nodi achosion o gydweithio a chystadleuaeth sydd eisoes yn bodoli.

### Cyfweliadau cyfranogwyr ar-lein i fyfyrwyr

Mae'n anodd cynnwys y set benodol hon o ddysgwyr mewn modd ystyrlon. Os na all dysgwyr gael mynediad i addysg Mynediad neu Sylfaen sy'n arwain at Addysg Uwch oherwydd rhwystrau, mae'n rhaid i ymchwilwyr geisio deall eu profiad er mwyn goresgyn rhai o'r rhwystrau hynny. Mae'n rhaid gofyn i'r rheini sydd mewn sefyllfaoedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac anawsterau personol roi o'u hamser i rannu eu safbwyntiau mewn ffordd sy'n parchu eu cyfraniad. Dywedwyd wrthym fod tocyn llyfr £10 yn gydnabyddiaeth briodol, ond nododd rhai partneriaid nad oeddent yn teimlo bod hyn yn cyrraedd y lefel sydd ei hangen ar gyfer cyfranogwyr sy'n fyfyrwyr. (Dewiswyd y math hwn o gydnabyddiaeth yn rhannol am fod y cyfranogwyr yn debygol o fod yn cael budd-daliadau neu gyllid grant y gallai taliadau effeithio arnynt). Gwnaethom gyfweld dysgwyr ar-lein er cyfleustra iddynt, fodd bynnag roedd hyn yn golygu ei bod yn anodd i bobl mewn ardaloedd lle ceir lefelau isel o fand eang a chysylltiad ffonau symudol gymryd rhan.

Gwnaethom ofyn i bartneriaid prosiectau recriwtio cyfranogwyr priodol sy'n fyfyrwyr i ni, gan roi cyflwyniad byr ar foeseg a rheoli data a chynnig rhagor o gymorth os bydd angen hyn. Gwnaethom gysylltu â 68 o fyfyrwyr i gyd, ar draws sefydliadau gwahanol. Yn y diwedd, dim ond 7 myfyriwr a Chynrychiolwyr

Myfyrwyr y gwnaethom lwyddo i'w cyfweld. Roeddent yn dod o bob cwr o Gymru: o'r Gogledd a'r De ac o gyrsiau Mynediad a Sylfaen.

Roeddem wedi bwriadu cynnwys 'llais y dysgwr' mewn tair ffordd:

- Ymweliadau ethnograffig ag Asiantaethau Cyflogaeth a chanolfannau Cyngor Gyrfaoedd yn ystod yr haf, ar ôl cael canlyniadau arholiadau, i ymgysylltu â dysgwyr y mae angen iddynt gael cyngor ar gyrsiau Mynediad a Sylfaen.
- Cyfweliadau â myfyrwyr a oedd wedi derbyn y cynnig o le ar gwrs Mynediad.
- Cyfweliadau â Chynrychiolwyr Myfyrwyr i gael trosolwg ehangach o brofiad myfyrwyr.

Ni wnaethom lwyddo i gynnal ymweliadau ethnograffig oherwydd problemau amserlennu, ond byddem yn argymell y rhain. Gallent gynnig dealltwriaeth fanwl o sut y rhoddir cyngor i ddysgwyr, gan gefnogi'r broses o gynllunio a darparu adnodd map o ddarpariaeth addysg drydyddol.

Rydym yn argymell gwaith gyda Chynrychiolwyr Myfyrwyr yn y dyfodol. Gwelsom fod hyn yn ffordd werthfawr o gael safbwyntiau mwy nag un myfyriwr: Mae'r cynrychiolwyr yn cymryd eu rôl o gynnig cynrychiolaeth ehangach o ddifrif ac maent wedi arfer rhoi argymhellion ar ran y sawl maent yn eu cynrychioli. Mae'r ffordd hon o weithio hefyd yn ymgysylltu'n briodol â strwythurau democrataidd mewn sefydliadau dysgu ac yn eu cefnogi, gan arwain o bosibl at sefydliadau yn cynyddu'r broses o gynnwys 'llais y dysgwr'.

Roedd gan Gynrychiolwyr Myfyrwyr drosolwg a dealltwriaeth well o'r rhwystrau a wynebir gan ddysgwyr Mynediad a Sylfaen. Roedd y myfyrwyr hynny y gwnaethom lwyddo i'w recriwtio yn gallu cyfleu eu hunain yn dda ac yn llwyddiannus. Gwnaethant roi dealltwriaeth werthfawr i ni, ond nid oedd ganddynt yr union safbwynt roeddem yn chwilio amdano.

### Dull naratif

Mae cyfweliadau naratif (yn hytrach na chyfweliadau lled-strwythuredig) yn galluogi cyfranogwyr i adrodd eu straeon eu hunain – gan sicrhau bod eu safbwyntiau nhw eu hunain yn cael eu cynrychioli, nid syniad y tîm ymchwil o'u safbwyntiau (Holloway a Jefferson, 2000). Yn hytrach na chyfres led-

strwythuredig o gwestiynau, cynhaliwyd cyfweliadau â'r holl gyfranogwyr (gan gynnwys dysgwyr) gan roi trosolwg cyflym o'r prif themâu roedd y prosiect ymchwil am eu cwmpasu ac yna roi awgrymiadau yn ystod y cyfweliadau a'r grwpiau ffocws os oedd angen. Y themâu oedd:

- Sylwadau ar unrhyw rwystrau at gael mynediad i'r rhaglenni Mynediad a Sylfaen, er mwyn cyrraedd Addysg Uwch;
- Unrhyw ymyriadau roedd sefydliadau yn eu cymryd i gefnogi dysgwyr i oresgyn y rhwystrau hynny.

Cafwyd trafodaethau cyfoethog, llawn gwybodaeth, ac roedd y cyfranogwyr yn awyddus i rannu eu dealltwriaeth. Yn y gweithdai grŵp ffocws gyda staff partneriaid y prosiect, cawsom y fantais o gael safbwyntiau'r rhai a oedd wedi cyflawni ymchwil ar gyfer traethawd hir ar gyfer doethuriaeth neu radd Meistr ar astudiaethau Mynediad, Sylfaen ac Addysg Uwch gynnar – gan nodi y ceir gwybodaeth academaidd ardderchog am y maes yng Nghymru.

Am resymau rhesymegol, nid oedd yn bosibl gwneud gwaith codi a dadansoddi gyda'r cyfranogwyr, ond cawsant eu gwahodd i weld y trawsgrifiad o gyfweliadau'r grŵp ffocws, i roi sylwadau neu ychwanegu rhagor o wybodaeth. Roedd y digwyddiad ar-lein cyn y Confensiwn hefyd yn cefnogi'r rhanddeiliaid i roi sylwadau ar y dadansoddiad, 'storying the story' (McCormack, 2004).

### Dadansoddeg thematig dangosol

Cynhaliwyd dadansoddiad thematig dangosol (Braun a Clarke, 2006). Mae hyn yn galluogi'r codau i ymddangos o'r data, yn hytrach na bod y tîm ymchwil yn datblygu themâu allan o lenyddiaeth neu o'u safbwyntiau blaenorol eu hunain, sydd wedyn yn cael eu hymgorffori yn y data. Roedd hyn yn cefnogi fframwaith cysyniadol mwy greddfol a chyfranogol, sy'n canolbwyntio ar nodweddion darpariaeth Mynediad a Sylfaen yng Nghymru. Roeddem yn ffodus o gael safbwynt academaidd yng ngweithdai ein grwpiau ffocws a chyfarfodydd ein grŵp llywio, a oedd yn cefnogi ffordd o feddwl gysyniadol o gamau cynharaf codio data. Yna cafodd dealltwriaeth ychwanegol ei meithrin hefyd o lenyddiaeth berthnasol i gefnogi'r broses o ddadansoddi'r data (yn benodol y fframwaith: "sefyllfaol, sefydliadol, tueddiadol" a ddefnyddir yn eang mewn astudiaethau ehangu cyfranogiad).

## Llais y Dysgwr

Roedd grŵp partneriaeth y prosiect bob amser yn awyddus i sicrhau bod 'llais y dysgwr' yn cael ei gynnwys yn y prosiect. Mae diffiniadau gwahanol o'r cysyniad hwn, sy'n amrywio o sicrhau bod safbwyntiau'r dysgwyr yn cael eu hadlewyrchu yn yr ymchwil er mwyn sicrhau bod y canfyddiadau'n ddilys, i rymuso'r dysgwyr i gael eu cynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau am eu darpariaeth addysg eu hunain. Mae ysgol canfyddiad Hart (1992), a gynlluniwyd i gefnogi ffordd o feddwl am lais dysgwr plant, yn dangos lefelau gwahanol o 'lais y dysgwr' ynghyd â chontinwwm o gyfranogiad mewn ymchwil.)

Gwnaethom chwilio am dystiolaeth o rymuso gweithredol ac o gynnwys safbwyntiau dysgwyr ym mhob rhan o'r sector, a'i ganfod, er nad yw hyn yn gyffredinol. Lle mae staff yn bwydo anghenion myfyrwyr hyd at lefel uwch-reolwyr ac yn gofyn pa adnoddau y mae'r myfyrwyr yn gofyn amdanynt, ni chaiff hyn ei gydnabod fel eirioli 'llais y dysgwr' bob amser. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos bod Cynrychiolwyr Myfyrwyr wedi'u hintegreiddio'n dda mewn strwythurau democrataidd o lywodraethu sefydliadol.

# 11. Casgliad

Gan fyfyrio yn 2020 ar 20 mlynedd o'r cyfnodolyn *Widening Participation and Lifelong Learning,* daeth Butcher i'r casgliad fod polisïau sydd â'r nod o ehangu cyfranogiad yn dal i fod yn faes dadleuol ledled y byd. Gofynnodd:

> "Should we invest in policies which produce real flexibility to enable greater participation?"

Mae Jeremy Miles, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, wedi cynnal gweledigaeth o Gymru fel 'cenedl o ail gyfle' (2022). Mae wedi cefnogi'r weledigaeth hon â pholisïau sy'n ceisio dod ag addysg drydyddol ynghyd a chynnwys dysgwyr o sawl cymuned ddifreintiedig amrywiol. Darpariaeth Mynediad a Sylfaen sy'n arwain y broses o ehangu cyfranogiad. Mae'r ymchwil hon yn dangos, er bod llawer o waith i'w wneud o hyd, eu bod yn cael eu cefnogi mewn darpariaeth hyblyg i ddysgwyr.

Mae dysgu Mynediad a Sylfaen yn cynnig ail gyfle i'r mwyafrif o ddysgwyr yng Nghymru. Er bod rhywfaint o gystadleuaeth yn eu rhannu, mae sefydliadau sy'n darparu cyrsiau Mynediad a Sylfaen yn ceisio cydweithio lle y bo modd. Mae'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a sefydlir gan Lywodraeth Cymru yn dod i mewn i amgylchedd Mynediad a Sylfaen lle mae awydd i gydweithio, a brwdfrydedd dros gefnogi dysgwyr sy'n oedolion a dysgwyr trosglwyddo ôl-16 i feithrin sgiliau ac i fod yn alluog, yn ddynamig ac yn symudol mewn tirwedd economaidd a chyflogaeth sy'n newid yn gyflym.

## 12. Cyfeiriadau


Bassett, E. (2022). *Further Educating Rita: Exploring the experiences of working-class women in Further Education*. Traethawd hir ar gyfer gradd Meistr, Y Brifysgol Agored. Ar gael yn: https://oro.open.ac.uk/87296/1/BASSETT_E822_VOR.pdf (Cyrchwyd 6/12/23.)

Braun, V. a Clarke, V. (2006). 'Using thematic analysis in psychology', *Qualitative Research in Psychology*, 3(2), tt. 77–101. http://dx.doi.org/10.1191/1478088706qp063oa

Butcher, J., Clarke, A., Wood, C., McPherson, E., a Fowle, W. (2019). 'How does a STEM Access module prepare adult learners to succeed in undergraduate science?' *Journal of Further and Higher Education*, 43(9), tt.1271–1283. https://doi.org/10.1080/0309877X.2018.1476679

Butcher, J. (2020). 'What has been learned from 20 years of published articles on widening participation and lifelong learning?' ar flog y Sefydliad Polisi Addysg Uwch. Ar gael yn: https://www.hepi.ac.uk/2020/01/14/what-has-been-learned-from-20-years-of-published-articles-on-widening-participation-and-lifelong-learning/ (Cyrchwyd 6/12/23.)

Butcher, J., a Clarke, A. (2021). 'Widening HE participation in the arts: Impacts of an access module on learner preparedness'. *Arts and Humanities in Higher Education*, 20(4), tt.403–425. https://doi.org/10.1177/14740222211004884

Butcher, J., a Curry, G. (2022). 'Digital poverty as a barrier to access.' *Widening Participation and Lifelong Learning*, 24(2), tt.180–194. https://doi.org/10.5456/WPLL.24.2.180

Cohen, L., Manion, L. a Morrison, K. (2018) *Research Methods in Education*. 8fed argraffiad. Rhydychen: Routledge.

Corfe, S. (2017). 'Living on the edge: Britain's coastal communities'. *Social Market Foundation*. Ar gael yn: http://www.smf.co.uk/publications/living-edge-britains-coastal-communities/ (Cyrchwyd 6/12/2023.)

Addysg Cymru (2018). *Cynllun Gweithredu Addysg Wledig.* Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-addysg-wledig (Cyrchwyd 6/12/2023).

Elmi-Glennan, C. (2013). *Influences of Past and Present Relational Social Processes when Entering Higher Education Post 30  Years: Experiential Accounts of Foundation and Year One Students.* Traethawd hir ar gyfer doethuriaeth, Prifysgol Metropolitan Caerdydd.

Gorard, S., Smith, E., May, H., Thomas, L., Adnett, N., a Slack, K. (2006). *Review of widening participation research:  addressing the barriers to participation in higher education*. Adolygiad ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr. Ar gael yn:  https://dera.ioe.ac.uk/id/eprint/6204/1/barriers.pdf (Cyrchwyd 6/12/2023).

Hart, R. (1992) *Children's Participation: From Tokenism to Citizenship*. Florence: UNICEF.

Hollway, W. a Jefferson, T. (2000) *Doing Qualitative Research Differently: Free Association, Narrative and the Interview Method*, Llundain, Sage.

Holtom, D., Bowen, R. a Pells, H. (2021). *The Benefits to the Individual, to Society, and to the Wider Economy in Wales of Widening Participation in Community-Based Adult Learning: Report for Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales.* Pobl a Gwaith / People and Work: Caerdydd.

Y Swyddfa Gartref (Ionawr 2016). *Social Network Analysis: 'How to guide'.* Ar gael yn:
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/491572/socnet_howto.pdf (Cyrchwyd 5/12/23).

Y Sefydliad Dysgu a Gwaith (2022). *Dysgu Oedolion yn y Gymuned - Adroddiad Effaith 2022.* Ar gael yn:
https://www.sefydliaddysguagwaith.cymru/resources/research-and-reports/dysgu-oedolion-yn-y-gymuned-adroddiad-effaith-2022/ (Cyrchwyd 17/12/23.)

McCormack, C. (2004) 'Storying stories: a narrative approach to in-depth interview conversations', *International Journal of Social Research Methodology*, cyf. 7, rhif. 3, tt. 219–36.

Miles, J. (Ebrill 2022). 'Cenedl o Ail Gyfle: Lle nad yw byth yn rhy hwyr i ddysgu'. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cenedl-o-ail-gyfle-lle-nad-yw-byth-yn-rhy-hwyr-i-ddysgu (Cyrchwyd 14/12/2023).

National Co-ordinating Centre for Public Engagement (2017). 'Lessons from the School-University Partnerships Initiative (SUPI)'. Ar gael yn: https://www.publicengagement.ac.uk/resources/report/lessons-school-university-partnerships-initiative-supi (Cyrchwyd 6/12/2023.)

# 13. Partneriaeth y prosiect

## Y tîm ymchwil:

Y Brifysgol Agored yng Nghymru – strwythurau llywodraethu mewnol, cymeradwyaeth a monitro'r prosiect: Y Tîm Cynghori Arweinyddiaeth Strategol (SALT), Y Brifysgol Agored yng Nghymru

Noddwr y prosiect: Lynnette Thomas, Dirprwy Gyfarwyddwr, Strategaeth a Datblygu (Cymru)

Arweinydd y Prosiect: Darren Jones, Uwch-reolwr, Partneriaethau

Rheolwr y Prosiect: Gareth Harvey, Rheolwr Partneriaethau

Prif Ymchwilydd: Anita Naoko Pilgrim

Ymchwilydd Cyswllt: Maryaa Bibi

Cynorthwyydd Tîm y Prosiect: Mel Thomas

## Cydnabyddiaethau

Hoffem gydnabod yn ddiolchgar gefnogaeth dysgwyr, Cynrychiolwyr Myfyrwyr, staff sefydliadol a staff trefnu, a gefnogodd ein prosiect yn hael â'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Susie Arnold
Janet Beauchamp
Emma Bengar
Bridie Benson
Graham Bird
Andrew Bond
Claire Brown
Taran Brown-Edwards
Louise Cook
Michelle Cooper
Teresa Cox
Iestyn Davies
James Dawson
Sue Diment
Michael Draper
Chris Drew
Rachel Edmonds-Naish
Jeremy Edwards
Sandra Fender
Paul Flanagan
Clare Glennan
Samantha Hobby
Darren Howells
Elisha Hughes
Cindy Hunt
Emma Hurst
Gemma Ible
Yusuf Ibrahim
Simon Jenkins
Gareth Jones
Michelle Kerswell
Claire Leakey
Rachel Leighton
Angela Lewis
Amy Lewis
Caroline Lewis
Conor Merrick
Libby Morgan
Victor Morgan
Kelly Murphy
Katherine Murphy
Ceri Nicolle
Sinéad O'Connor
Steven Peacock
Emma Pearce
Vinmathi Ponalagappan
Julie Pritchard
Liam Riddiford
Deirdre Rock
Dave Roylance
JoAnna Singh
Huw Swayne
Katherine Sweet
Sarah Taylor
Jodie Trotman
Joshua Vella
Anne Verries-Wade
Alison Walker
Marc Welsh
Emma Wheeler

Ceri Wilcock

Tim Woods

Caitlin Woodland

Deborah Youngs

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru